PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 439 | Mai 2021



Clymau'r clo t.12



Gwobrwyo Hal Young t.14

Geiriadur Cymraeg-Gwyddeleg t.4



# Llongyfarchiadau

1961 - 2021

Anrhydedd yw cael llongyfarch a dymuno yn dda i Lynwen a Geraint a'u teuluoedd; hefyd eu staff am eu gwasanaeth arbennig i'w cwsmeriaid yn y garej ym Mhenrhyn-coch a Phonterwyd am chwe deg o flynyddoedd. Tad a mam Lynwen a Geraint oedd yn arfer rhedeg y garej – sef y diweddar Cyril a Jane ei wraig sydd bellach wedi ymddeol ac yn byw yn Kerry yn ymyl Waunfawr. Mae y garej hefyd wedi bod yn ganolfan lle gwelir amryw griw o bobl yn cael sgwrs neu ddwy, ac ar hyd y blynyddoedd mae perchnogion y garej wedi cymryd rhan yn holl weithgareddau fyddai yn cael eu cynnal yn y pentre, ac yn hael eu cymwynas bob amser. Mae ein diolch yn fawr iddynt am eu gwasanaeth diflino, a dymunwn yn dda iddynt eto i'r dyfodol.

Daeth cyfarchion iddynt gan gwmni BP – sydd wedi newid eu brandio deirgwaith yn y trigain mlynedd y bu y Garej gyda nhw.

I ddathlu ar y diwrnod cafodd y 6 cwsmer cyntaf £10 yr un, sef

1 Mr Burns
2 Doug Rees-Stevens
3 Selwyn Evans & Eleanor Schroder
4 Carwyn Jones
5 Iestyn Williams – roedd yn ddiwrnod lwcus i Iestyn gan iddo hefyd basio ei brawf gyrru y diwrnod hwnnw!
6 Ffion Wynne

Cafodd y 60fed cwsmer Phil & Alison Rowley lond tanc o betrol. Roedd gwobr gysur o ddwy botel o win am fod munud yn hwyr am y tanc llawn diesel! I gwsmer 61 Mel Evans yn ei fws!




Dyma linellau gyfansoddodd Mrs Mairwen Jones i'r achlysur.

Chwedeg o flynyddoedd o wasanaeth i ni
Diolch o galon i bob un ohonoch chi
Hefyd am fod yna bob amser i'n helpu
A gwneud bywyd yn hawddach i bobl fel ni.
Diolch hefyd am ddod a'r siopa bob dydd i'r tŷ
A gwên ar eich wyneb yn ein croesawu.
Mae yn anrhydedd i gael y cyfle i ddiolch i chi
A dymuniadau gorau i'r dyfodol i chi fel teulu.



Mr Cyril Jenkins



Tymawr 1961

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mehefin – Dyddiad cau** Mehefin 4; **Dyddiad cyhoeddi** Mehefin 16

**MAI 28** Dydd Gwener HMS, a'r Ysgol ar gau i ddisgyblion
**MAI 31- MEHEFIN 4** Dyddiau Llun i Gwener Hanner Tymor
**GORFFENNAF 2** Dydd Gwener Hyfforddiant Mewn Swydd, a'r Ysgol ar gau i ddisgyblion
**GORFFENNAF 17-18** Dyddiau Sadwrn a Sul Dyddiad Newydd ar gyfer Twrnament Iau Eric ac Arthur Thomas os bydd amgylchiadau yn caniatau.

## Colli ac ennill neu £3,000 i elusennau lleol

Nid yw aelodau Clwb Cinio 95 ( un o'r ddau glwb cinio cyfrwng Cymraeg i ddynion yng nghylch Aberystwyth) wedi llwyddo i gyfarfod yn fisol, yn ôl eu harfer dros y blynyddoedd, am bryd o fwyd blasus a sgwrs yng Ngwesty'r Richmond er 18ed Mawrth 2020. A mawr yw'r

holi pryd y gellir ail ddechrau. Ond nid am beth amser eto, efallai? Cawn weld! Methwyd hefyd a dathlu pen blwydd Clwb Cinio 95 yn bump ar hugain oed ym Medi 2020 ond fe ddaw na gyfle eto, siawns. Ac er colli'r gwmnïaeth ddifyr dros bryd o fwyd a'r anerchiadau yr un mor ddifyr gan siaradwyr gwadd o fis i fis ar hyd y blynyddoedd ni fu'r flwyddyn ddiwethaf yn golled i gyd.


Gan fod holl aelodau Clwb Cinio 95 wedi penderfynu parhau i gyfrannu eu tâl aelodaeth misol er cyfnod y Clo Mawr cyntaf ym Mawrth 2020 fe gasglwyd celc go dda o bres wrth gefn. Ac o ganlyniad fe ddosbarthwyd £3,000 i chwech o elusennau hefo cysylltiadau lleol rhwng Ebrill 2020 ac Ebrill 2021. A dyma'r rhoddion:

£500 i Uned Chemotherapi Ysbyty Bron-glais (dan ofal Dr Elin Jones); £500 i Adran ar Frys (A&E) Ysbyty Bron-glais ( dan ofal Dr Alwyn Jones); £500 i Mind Aberystwyth; £500 i Kids Cancer Charity; £500 i Jubilee Store House (Banc Bwyd) a £500 i'r Brain Tumour Charity er cof am y diweddar Dr Richard Edwards.

Swyddogion presennol Clwb Cinio 95 ydynt : Gwynfor Jones, Llangawsai (Cadeirydd), John Roberts, Penygraig (Trysorydd) a Rheinallt Llwyd, Penrheidol (Ysgrifennydd).

## Bysiau yn lle trenau

Er mwyn gwneud gwelliannau hanfodol trwy godi pont sy'n croesi afon ger Machynlleth fel na fydd cymaint o lifogydd ac amharu ar wasanaethau bydd bysiau yn lle trenau rhwng yr Amwythig a Machynlleth rhwng 15 Mai a 27 Mehefin



## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ebrill 2021

**£25** (Rhif 112) Arthur Williams, Penrhiwlas, Goginan
**£15** (Rhif 279) Richie Jenkins, Cwm Bwa, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 8) Elin Hefin, Caerdydd

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.
Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod
i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

YTincer@googlemail.com

## 30 mlynedd yn ôl




Gladys James a Henry James, eu hŵyr Thomas James, Y Parchedig Meurig John, Owen Watkin a Deulwyn Morgan ar achlysur agoriad swyddogol Cwrt Aml Ddefnydd Rhydypennau.
Llun: Peter Henley *(O'r Tincer Mai 1991)*

# Hanes tŷ ar y mynydd – Llawrcwmbach

### Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru e-lyfr – £0.00

Ffrwyth ymweliadau a gwaith ymchwil Panel Ieuenctid Haneswyr Ceredigion neu'r CHIPs yw Hanes Tŷ ar y Mynydd. Bydd y grŵp yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd




yn swyddfeydd y Comisiwn Brenhinol yn Aberystwyth a'i amcanion yw dysgu sgiliau newydd ac ymchwilio i 'dreftadaeth ddisylw' Ceredigion. Mae'r llyfr yn disgrifio sut yr aethant ati i gofnodi ffermdy adfeiliedig ym mryniau anghysbell gogledd Ceredigion a'r broses o ymchwilio i'w treftadaeth leol a'i diogelu. Casgliad o ddyfyniadau o'u sgyrsiau, ac o'u hatgofion am ymweld â'r tŷ ac archwilio'r dirwedd o'i gwmpas, yw'r testun. Tynnwyd y lluniau gan aelodau Panel Ieuenctid Haneswyr Ceredigion. Nodir ar ddiwedd y gyfrol ei bod yn cael ei ystyried yn goffâd teilwng i Anna Evans. Mae fersiwn e-lyfr ar gael am ddim – gweler https://siop.cbhc.gov.uk


Uchafbwyntiau'r mis ar **BroAber360.cymru**

**GAIR GAN YR YSGOGYDD**



Helo bawb! Llwyth o straeon da ar BroAber360 dros y mis diwethaf. Rydym hefyd wrthi'n gweithio'n agos hefo busnesau lleol. Cadwch lygad ar sianelau cyfryngau cymdeithasol BroAber360 am y diweddaraf! Tan tro nesa - Dan

**Y MÔR, AMAETHU A MWYNGLODDIO**




Mae llyfr newydd a gyhoeddir gan y Lolfa, *Land of Lead*, yn adrodd stori pedair cenhedlaeth o'r un teulu, o'r 19eg ganrif i ganol y 1960au. Mae awdur y llyfr, Brian Davies, yn wreiddiol o Benrhyn-coch, felly os oes gennych ddiddordeb mewn hanes lleol mae'r llyfr yma'n berffaith i chi!

**MIS CERDDED CENEDLAETHOL**

Mae mis Mai'n fis swyddogol 'mynd am dro' - felly pam ddim mynd allan i'r awyr agored, a mwynhau beth sydd gan yr ardal i gynnig? Dyna be ddaru Dana Edwards neud, cyn cofnodi'r dro ar ei gwefan fro, ac enwebu Catrin MS i neud yr un peth. Beth am ymuno â nhw, a chreu darn i annog pobol i fynd i gerdded?



**GLODDIO YM MHENDINAS**



Diddordeb mewn mwyngloddio, neu mewn hanes lleol? Yn dilyn blynyddoedd o ymgyrchu, mae criw wedi llwyddo i gael cyllid a chaniatâd i gloddio Pendinas am olion o'r Oes Haearn. Gallwch ddarganfod sut i gymryd rhan yn y darn.

Ffili aros tan y papur nesa'?
– BroAber360.cymru

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
Brecwast
ar gael
01970 820 050

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

y tincer
Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Y Borth

**Gorymdaith y Carnifal**

Mae Pwyllgor Carnifal y Borth wedi cadarnhau eu bod yn bwriadu cynnal yr orymdaith draddodiadol ar ddiwrnod y Carnifal sef dydd Gwener 6 Awst.

Bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r orymdaith y llynedd oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ond mae'r trefnwyr yn hyderus y bydd modd ei chynnal y tro hwn gyda rhai addasiadau.

Bydd yr orymdaith liwgar yn cychwyn am 1.30 o'r maes parcio gyferbyn a'r Clwb Golff ac yn mynd trwy'r pentref cyn gwasgaru i'r traeth ger cylchfan Nisa. Ni fydd digwyddiadau na lluniaeth ar y cae ger y neuadd gymunedol fel sy'n digwydd yn arferol.

Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor y Carnifal Carol Bainbridge: "Er na wnaethom ni lwyddo i gael Diwrnod Carnifal y llynedd, roedd ysbryd Carnifal y Borth yn fyw ac fe gafwyd sawl digwyddiad hwyliog, gan gefnogi grwpiau lleol gyda rhoddion o bron i £5,000. Eleni rydym wrthi fel lladd nadredd yn trefnu'r Carnifal y Borth hyd gorau'n gallu. Bydd gennym lawer o'n digwyddiadau arferol ac ambell un ychwanegol o bosib felly ewch ati i gynllunio'ch gwisgoedd, addurno'ch tai a pharatoi. Byddwn wrth reswm yn cadw at unrhyw gyfyngiadau sydd mewn grym ac yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda'r gymuned leol."

Bydd manylion llawn i'w cael yn rhaglen y Carnifal sydd ar werth mewn siopau lleol ond dyma rai o'r digwyddiadau sy'n cael eu cynllunio:



Gorymdaith o'r gorffennol

24 Gorffennaf: Coroni Brenhines y Carnifal gyferbyn â Siop Premier am 1.30yp
25 Gorffennaf: Sioe Gŵn am 2.30yp ar y cae ger Gwesty'r Railway
25 Gorffennaf: Cystadleuaeth Cestyll Tywod rhwng 2-4yp ar y traeth ger maes parcio troad Ynyslas
31 Gorffennaf – 1 Awst: Gŵyl Gelf Sialc rhwng 10yb–5yp ar wal y môr gyferbyn â'r YHA
3 Awst: Picnic Tedis 10yb-2yp yn Ysgol Craig yr Wylfa a Zoom
4 Awst: Cwis ar-lein
6 Awst: Gorymdaith y Carnifal rhwng 1.30-3yp
15 Awst: Cystadleuaeth Brenin a Brenhines Cors Fochno am 11yb ger Gorsaf y Bad Achub
22 Awst: Ras Hwyaid am 2yp ar Bont Glanleri

**Cyfyngiadau Cŵn**

Fel llawer o'r traethau eraill ar hyd arfordir Cymru, mae cyfyngiadau ar waith rhwng 1 Mai a 30 Medi i atal cŵn rhag mynd i rannau o draeth y Borth sydd fwyaf poblogaidd ymhlith teuluoedd. Ond bydd wastad rhan o'r traeth ar gael i'r teulu cyfan, gan gynnwys anifeiliaid anwes, ei fwynhau gyda'i gilydd.

Mae'r cyfyngiadau ar gŵn yn cychwyn ar y traeth o dan y Graig ac yn ymestyn at yr ardal gyferbyn â'r Clwb Golff. Nid oes cyfyngiadau ar fynd â chŵn ar y traeth rhwng y Clwb Golff ac Ynys-las.

Helpwch ni i gadw ein traethau yn lân ac yn ddiogel drwy lanhau ar ôl eich ci a rhoi eich sbwriel mewn bin, neu fynd ag e adref.

Mae rhagor o wybodaeth am draethau Ceredigion i gael ar wefan Darganfod Ceredigion: http://www.darganfodceredigion.cymru/ardaloedd-ceredigion/traethau-a-chymunedau-glan-mor-ceredigion.


**Ailagor Libanus 1877**

Bydd sinema Libanus 1877 yn ailagor ar 17 Mai am y tro cyntaf ers cyn y Nadolig. Y ffilm gyntaf i'w dangos eleni fydd *Peter Rabbit 2: The Runaway* (U) a bydd rheolau ymbellhau cymdeithasol yn eu lle yn cynnwys cyfyngu ar niferoedd, bwcio mlaen llaw a gwisgo gorchudd wyneb.

Bydd bwyty Libanus 1877 hefyd yn ailagor ar nos Wener 21 Mai gyda bwydlen newydd. Mae manylion llawn i'w cael ar dudalen Facebook neu wefan Libanus.

**Geiriadur Cymraeg-Gwyddeleg**

Llyfrgellydd teithiol wrth ei waith bob dydd yw Joe Mitchell ond mae hefyd yn ieithydd a thros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain, bu wrthi'n saernio llyfr unigryw sef y Geiriadur Cymraeg-Gwyddeleg cyntaf erioed. Cafodd y gyfrol ei chyhoeddi yn 2017 gan Wasg Gwaelod yr Ardd, a sefydlwyd gan Joe ei hun. Wedi'i eni yng Nghaerdydd ac wedi dysgu Cymraeg yn rhugl pan yn oedolyn ifanc, mae hefyd wedi dysgu siarad Arabeg yn ogystal â Gwyddeleg. Bu Joe – sy'n byw yn y Borth ers 2019 ac a fu cyn hynny yn byw yn Mryncastell, Bow Street – yn siarad gyda'r Tincer am ei brosiect cyhoeddi rhyfeddol.



Joe Mitchell, awdur y Geiriadur Cymraeg-Gwyddeleg

**Pam nes ti benderfynu mynd ati greu geiriadur Cymraeg – Gwyddeleg?**

Doedd dim un ar gael pan ddechreuais astudio'r Wyddeleg yn 1989. Roedd yr athro Gwyddeleg a hanner y dosbarth yn Gymry ac roedd y tebygrwydd rhwng y ddwy iaith yn meddwl y byddai'r dysgu yn rhwyddach o gael y ddwy iaith wrth ymyl ei gilydd, er bod y treigliadau a'r eirfa yn eithaf gwahanol i'w gilydd.

**Sut es ti ati?**

Yn 1989 dechreuais ar fy nheipiadur wrth ysgrifennu rhestri o eiriau ac ymadroddion defnyddiol ar gyfer geiriadur bach i fyfyriwyr. Tua 1994, wedi tyfu'n fwy, aeth y rhestri i mewn i brosesydd geiriau ac ar ôl nifer o flynyddoedd aeth i mewn i fas data. Aeth y cyfan newydd yn ôl i brosesydd geiriau tua 2003 er mwyn printio copi caled i'w olygu. Roedd y cywiro a'r golygu yn parhau tan 2017 pan gafodd ei gyhoeddi yn llyfr bach clawr caled 250 tudalen. Roedd Sul y Pys wedi cyrraedd!

**Faint o amser gymerodd hi?**

At ei gilydd tua 30 o flynyddoedd. Erbyn 2015 roeddwn i'n cydweithio gyda'r golygydd Diarmuid Johnson i wirio'r cynnwys. Wnes i fwynhau'r gwaith gosod a dylunio a gwnaeth Gomer brintio'r *Geiriadur Cymraeg – Gwyddeleg* yn 2017 dan enw'r cyhoeddwr 'Gwasg Gwaelod yr Ardd' gyda Llyfrau Ystwyth a finnau yn talu'r £2100 oedd ei angen ar gyfer 500 copi. Lluniais wefan er mwyn ei hysbysebu a gwnes nifer o deithiau o gwmpas siopau llyfrau Cymru i werthu'r gwaith. Mae sawl siop yn Iwerddon hefyd wedi cymryd y llyfr.

**Pa ymateb sydd wedi bod i'w gyhoeddi?**

Roedd y lansio ym mwyty Medina yn Aberystwyth fis Rhagfyr 2017 yn hwyl. Roedd ffrindiau, myfyrwyr a phobl ddiarth oedd wedi clywed am y digwyddiad ar Trydar wedi ymgynull i ddathlu, cefnogi a sipian gwin. Wedyn ym Marchnad Caernarfon ryw ddwy flynedd yn ôl ces i gyfle i ddangos y llyfr yn ystod gŵyl Cymraeg – Gwyddeleg o flaen cynulleidfa o lenorion, cerddorion ac ymgyrchwyr.

Mae'r teulu'n diolch i Dduw bod y mynydd wedi'i goncro! Mae tua hanner y llyfrau wedi eu dosbarthu a'r rhan fwyaf o'r rheini wedi eu gwerthu. Dydy'r gwaith o gadw llygaid ar y gwerthu ddim at fy nant. Llafur cariad oedd yr holl brosiect mewn gwirionedd ac rydyn ni

wedi cyrraedd y nod o adennill cost y printio. Fallai bod hi'n bryd mynd at y Cyngor Llyfrau i weld beth all y dosbarthwyr proffesiynol ei wneud er mwyn symud y gweddill yn handi.

**Ar beth mae Gwasg Gwaelod yr Ardd yn gweithio ar hyn o bryd (ac o ble ddaeth yr enw...)?**

Mae gen i gerddi wedi eu casglu gan ddarllenwyr fan fach y gogledd llyfrgell Sir Ceredigion, honno dw i'n ei gyrru pan fydd Mr Drakeford yn caniatáu. Dw i'n gobeithio eu gweld nhw'n gasgliad ynghyd â lluniau erbyn Eisteddfod Tregaron? Liciwn i weld geiriadur Gwyddeleg – Cymraeg hefyd.

Am yr enw, dw i wrth fy modd â'r gân 'Nóra Bheag' (Nora Fach) sy'n mynd:

"A Nóra bheag cá raibh tú aréir?" sé duairt mo mháthair liomsa,

"I gcúl a' tí ag tobar an uisce ag foghlaim coscéim damhsa!"

"Nora fach lle buest ti'r hwyr?" 'na wedodd Mami wrtha i,

"Yng nghefn y tŷ wrth ffynnon y dŵr yn dysgu dawnsio stepiau!"

Step fach ydy hi o *gefn y tŷ* i waelod yr ardd. Ac mae'n bosib cynhyrchu llyfr yn sied yr ardd os ydy rhywun wir eisiau, os ydy'r penderfyniad yna.

**Sut mae prynu copi?**

Mae Llyfrau Ystwyth yn cadw stoc.

**Canolfan Deulu'r Borth**

Mae staff a gwirfoddolwyr y Ganolfan wedi bod yn brysur yn paratoi i ailagor eu hardal gweithgareddau tu fas. Diolch i gefnogaeth gan Deuluoedd yn Gyntaf a grant Ieuenctid gan CAVO, maen nhw hefyd wedi llwyddo i drawsnewid yr ardd, gan greu gardd gymunedol i dyfu perlysiau yn ogystal â phlannu hadau blodau gwyllt, planhigion peillio a llysiau. Diolch yn fawr i bawb fu'n cynorthwyo!

Fe ail-gydiodd y Ganolfan yn eu gweithgareddau awyr agored ddiwedd mis Ebrill, er bod adeilad y Ganolfan ynghau o hyd. Daeth aelodau'r Clwb Ieuenctid at ei gilydd ar y traeth ar gyfer eu sesiwn gyntaf





wyneb-yn-wyneb ers mis Tachwedd a hynny ar noson hynod o braf gyda machlud arbennig. Ers hynny, mae'r Ganolfan wedi trefnu pedair sesiwn awyr agored yr wythnos i deuluoedd yn cynnwys sesiynau Iaith a Chwarae, Siarad a Cherdded i rieni newydd, Bymps a Babis, a gweithgareddau Ysgol y Goedwig a'r Arfordir. Os bydd y tywydd yn twymo, y gobaith hefyd yw cynnal sesiynau tylino babanod yn yr awyr agored!

Oherwydd cyfyngiadau Covid, mae'n rhaid cadw'r grwpiau'n fach a chael manylion pawb ymlaen llaw at ddibenion Tracio ac Olrhain. Gofynnir felly i unrhyw un sydd â diddordeb mewn mynychu'r gweithgareddau i gysylltu gyda'r Ganolfan trwy ebostio contact@borthfamilycentre.co.uk er mwyn cael ffurflen gofrestru arlein. Pan fydd y ffurflen wedi'i dychwelyd, bydd dolen ar gyfer cadw lle ar y sesiynau gwahanol yn cael ei hanfon.

**Cofio David Matthews**

Gyda thristwch rydym yn nodi marwolaeth David Matthews, Maesarfor, y Borth, ar 19 Ebrill, ychydig fisoedd yn unig ar ôl marwolaeth ei annwyl wraig, Celia. Daeth David i fyw yn y Borth gyda'i deulu ifanc ym 1968, i ddysgu yng Ngholeg Llyfrgellyddiaeth Cymru oedd newydd ei sefydlu yn Llanbadarn, Aberystwyth. Ond roedd ei gariad mawr at Gymru wedi cychwyn ymhell cyn hynny, pan fu'n chwarae rhan Owain Glyndŵr yn nrama Shakespeare Harri IV, Rhan I yn yr ysgol. Cafodd ei acen ei ganmol gan sawl aelod o'r gynulleidfa a nododd ar y pryd taw "Cymro yw e, wyddoch chi". Yn y chweched dosbarth, bu'n olygydd cylchgrawn yr ysgol lle ychydig flynyddoedd ynghynt ym 1938, roedd y darn isod am y Borth wedi gwneud cryn argraff arno.

"*Gadewch inni gerdded lan at y Gofeb Ryfel ac edrych allan dros y wlad... dros nant dawel y Leri a'r bryncyn lle tyfa'r mwyar duon*."

Cyrhaeddodd yn y cyfnod pan oedd y Coleg Llyfrgellyddiaeth yn cychwyn ar ei waith, a bu'n rhan o'i ehangu i bob chwarter o'r byd. Ar ôl ymddeol, bu'n teithio o amgylch Nigeria a Chanada yn rhoi darlithoedd, gan addysgu a rhannu ei gariad at werth llyfrgelloedd. Roedd ei gof rhyfeddol yn llyfrgell ynddo'i hun, yn stôr o farddoniaeth, llenyddiaeth, a rhai o areithiau gwleidyddol mawr yr oesoedd.

Fel rhan o'r gymuned yn y Borth, byddai'n llefaru monologau Stanley Holloway, a hynny yn ei wisg o'i gyfnod gyda'r llynges a'i deithiau ledled y byd ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Roedd yn ystyried ei fywyd fel cyfres o ddigwyddiadau ffodus ac yntau wedi'i fendithio â gwraig a merched cariadus a chartref hyfryd ger y môr lle bu'n casglu ei lyfrgell helaeth ei hun, a roddodd bleser mawr iddo yn ystod ei ymddeoliad hir a hapus. Roedd David a Celia ymhlith hoelion wyth Canolfan Celfyddydau Aberystwyth. Byddai Celia'n chwarae'r soddgrwth yn y gerddorfa a David yn ysgrifennu'r nodiadau ar gyfer rhaglen y cyngerdd. Roedd eu cariad cyffredin at gerddoriaeth glasurol yn golygu bod y tŷ bob amser yn llawn cerddoriaeth Radio 3. Mae'n gadael tair o ferched, pedwar o wyrion ac un or-wyres.

**CLWB GOLFF Y BORTH AC YNYS-LAS**

Dyma ganlyniadau'r cystadlaethau a gynhaliwyd gan Glwb Golff y Borth ac Ynys-las ddiwedd mis Ebrill a dechrau mis Mai.

**Adran y Dynion**

*Tlws Tom Barker*

Cystadleuaeth Stableford a gynhaliwyd ar 25 Ebrill gyda nifer yn chwarae. Cipiwyd y tlws gan Christopher Evans gyda 38 pwynt. Yn ail oedd Harri Jones ac yn drydydd Alun Phillips, y ddau hefyd yn gorffen gyda sgor o 38 ond yn colli wrth gyfrif sgor y naw twll olaf.

*Cwpan Paterson*

Ar 2 Mai, â'r tywydd yn ddelfrydol ar gyfer golff, enillwyd Cwpan Paterson gan Mel Evans gyda sgor arbennig o 41 pwynt. Roedd Kenneth Griffiths yn ail ar 39 pwynt a Christopher Evans yn drydydd ar 38 pwynt.

**Adran y Merched** – *Gobled Wilding*

Ar 1 Mai – â'r tymheredd yn debycach i fis Mawrth – chwaraeodd nifer o aelodau benywaidd y clwb yn arbennig o dda yn y gystadleuaeth Stableford yma. Yn ennill y dydd roedd Jane Raw Rees ar 42 pwynt ac yn dilyn yn agos iawn Anna Hubbard ar 41 pwynt. Yn y trydydd safle, roedd Clare Jones yn ennill ar y naw twll olaf o flaen Mair Jenkins a Lynda Evans. Llongyfarchiadau mawr i bawb!

# Y Cinio Mawr

## O'r 5ed o Fehefin 2021

Mae Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru, yn gwahodd darllenwyr eich papur bro i gymryd rhan yn Y Cinio Mawr!

**Beth yw Y Cinio Mawr?** Digwyddiad blynyddol sy'n cael ei gynnal mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru a'r DU. Cyfle i gymdogion ddod at ei gilydd, i rannu diolch a dod i adnabod ei gilydd yn well. Syniad gan yr Eden Project yw'r cyfan ac mae'n bosibl diolch i'r Loteri Genedlaethol.

**Ble?** Unrhyw le yn eich cymuned. Trefnwch baned dros y ffens, cinio yn yr ardd, picnic yn y parc…gallwch addasu i gydfynd â'r rheolau cymdeithasu, heb orfod canslo! Llynedd gwelwyd dros 165,000 o bobl yng Nghymru yn mwynhau cynnal Cinio Mawr ar-lein, ar stepen y drws a dros y ffens.

**Pwy?** Eich Cinio Mawr chi yw hwn, yn unol â'r rheolau gallwch wahodd y pentref cyfan neu drefnu gyda'ch cymydog agosaf yn unig.

**Sut?** Mae'n syml a does dim costau. Cofrestrwch am becyn dwyieithog Y Cinio Mawr am ddim ar thebiglunch.com.

Mae'r pecyn yn cynnwys gwahoddiadau i chi gael dosbarthu i'ch cymdogion, ryseitiau, syniadau am gêmau a mwy! Gallwch godi arian i elusen leol hefyd wrth gwrs!

**Pam trefnu Cinio Mawr?** Mae'n bwysicach nag erioed i ymgysylltu gyda'n cymdogion a'r gymuned. Mae'n gyfle i ddweud diolch, i ddod i adnabod ein cymdogion a'n cymuned yn well a chael hwyl. Mae pethau gwych yn gallu digwydd wrth i bobl ddod at ei gilydd, pwy a wyr beth fydd gwaddol eich digwyddiad chi.

**Gwobr!** Eleni am y tro cyntaf, mae Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru wedi partneru gyda Credydau Amser Tempo. Bydd cyfle i wirfoddolwyr sy'n buddsoddi amser am ddim yn eich Cinio Mawr lleol yng Nghymru, wneud cais am gredydau amser i'w gwario ar weithgareddau o bob math yng Nghymru. Rheswm gwych arall i chi a'ch cymdogion gymryd rhan!

**Cysylltwch a rhannwch eich cynlluniau a'ch lluniau gyda ni! ljenkins@edenproject.com / Facebook: edencommunitiescymru**







**y tincer**
YTincer@googlemail.com

## Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor trwy gyfrwng Zoom nos Iau Ebrill 15 gyda'r cadeirydd Richard Edwards yn y gadair. Roedd y cynghorwyr cymuned i gyd yn bresennol a hefyd y Cynghorydd Sir Rhodri Davies.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mis Mawrth 2021 fel rhai cywir.

Roedd tri chais cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor sef:-

A210291 – Tir cyfagos i Maescrug, Pantycrug,Aberystwyth.

A210244 – Caeau SN6678, 1097 &1994 Cwmrheidol.

A210318 – Hen Ficerdy, Capel Bangor.

Roedd y clerc wedi derbyn sawl llythyr oddi wrth mudiadau lleol yn diolch am y rhoddion ariannol.

Mae y Cyngor Cymuned wedi penodi contractwyr i baratoi'r safle a gwneud Gorchudd Bws newydd, yn lle yr un a ddifrodwyd yn y ddamwain ger Stad Pen-llwyn. Bydd y gost o gwmpas £8,000.

Hysbysodd y clerc ei bod wedi derbyn, trwy ebost, cyfarwyddiadau a'r ffurflenni ar gyfer cyfrifon 2020/2021.

Mae yna sedd wag ar y Cyngor; mae angen rhywun i gynrychioli ardal Goginan. Os oes gan rywun o'r gymuned ddiddordeb i fod yn gynghorydd bro cysylltwch â'r clerc (Lynne B Davies, Glasfryn, Capel Bangor) neu un o'r Cynghorwyr am ragor o wybodaeth.

Bydd y cyfarfod nesaf a'r Cyfarfod Blynyddol nos Iau Mai 13eg am 7.30yh, trwy gyfrwng Zoom.

# Llandre

**Darllenwyr o fri y C.Ff.I**
Braf oedd gweld aelodau C.Ff.I Tal-y-bont yn dychwelyd i gystadlu yn ystod mis Ebrill, er bod hynny trwy gyfrwng sgrin y cyfrifiadur yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I Cymru ar ddydd Sadwrn, 24 Ebrill gyda Lois Medi Jones, Pantyperan, Llandre, Oisín Lludd, Bont-goch a Jano Evans o Glwb Caerwedros yn cystadlu ar ran Ceredigion yn y gystadleuaeth Darllen Iau. Llongyfarchiadau mawr i'r tri ar gipio'r tlws i'r tîm buddugol yn sgîl eu darlleniadau o'r gyfrol *Llechi* gan Manon Steffan Ros ac yn arbennig i Lois oedd yn Gadeirydd ar y tîm yn ennill y tlws am y darllenydd a'r unigolyn gorau yn y gystadleuaeth. Tipyn o gamp yn wir ac yn derbyn clod arbennig gan y beirniad Iwan Griffiths. Hyfforddwyd y tîm gan Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont.



**O'r ysbyty**
Da deall fod Mary Thomas, Croesawdy, gartref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Gerwyn a Marianne J Powell, Leacroft, ar farwolaeth modryb Gerwyn. Roedd chwaer ei dad yn 97 oed ac yng nghartref Preswyl Blaendyffryn, Llandysul. Bydd yr angladd yn Cellan.

**Cyfle i actores ifanc**
Llongyfarchiadau i Glain Llwyd Davies, disgybl yn Ysgol Gyfun Penweddig, gafodd ei derbyn i fynd i ymarfer a pherfformio sioe gerdd newydd sbon o'r enw 'Our Girls, Our Game' yn Farsley, ger Leeds gyda'r British Youth Musical Theatre. Dymuniadau gorau iddi.

# Trefeurig

Diolch i June Griffiths, Aberystwyth, am gael cyhoeddi y llun yma o hen deulu Siop Cwmsymlog – teulu ei mam. Yn y rhes gefn – Robert Edward, David Humphrey, Olwen.

Rhes flaen- John Jones (taid June), Ann Elizabeth (Nansi Kenny wedyn – ei mam), Susanna Jones (mam-gu June). Bu farw chwaer, Minnie, yn 17 oed o glefyd y siwgr. Mae June yn cofio ei mam-gu- roedd yn saith oed pan fu farw.



**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu y Cyngor ar nos Iau 29 Ebrill trwy gyfrwng Llinell Ffôn Whypay. Oherwydd anhwylder y Gynghorwraig Meinir Lowry, cymerwyd y gadair gan yr Is-Gadeirydd y Cynghorydd Robert Pugh. Dymunwyd adferiad llwyr a buan i' r Gynghorwraig Meinir Lowry. Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Dewi Evans sydd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar. Adroddwyd bod y Cynghorydd Tom Hughes yn gwella wedi cyfnod o anhwylder.

Derbyniwyd cofnodion Mawrth fel rhai cywir. Materion yn codi o'r cofnodion. Nid oedd rhagor o newyddion i'w hadrodd am hynt a helynt Gwefan y Cyngor, ond efallai bydd mwy i'w hadrodd gan y Cynghorydd Iestyn Hughes yn y cyfarfod nesaf. Mae y llwybr o waelod Maes Ceiro dros y Bontwen a thros y rheilffordd wedi cael trwch o gerrig, a sylwyd bod mwy o gerddwyr yn ei defnyddio eto. Mae padiau newydd wedi cyrraedd ar gyfer y ddau ddiffibrilwr yn Bow Street a'r bil o £69. Adroddwyd bod y Cabanau Disgwyl Bysiau yn yr ardal oedd angen triniaeth wedi cael eu trwsio. Erys y mater pwy sydd i fod yn gyfrifol amdanynt i gyd, braidd yn annelwig ar hyn o bryd. Mae'r arwydd Bow Street a ddifrodwyd ar ben uchaf y Lon Groes wedi ei symud, a gobeithir ei weld yn dychwelyd yn fuan.

Goleuo arwyddion 30/20 milltir yr awr rhwng Capel y Garn a Rhydypennau. Adroddwyd mae yn ystod yr amser bydd plant yn cyrraedd a gadael yr ysgol y byddant yn goleuo 20 milltir yr awr. Gweddill yr amser, rhwng y gyrwyr a rhagluniaeth fydd hi!

Mae angen trwsio ffens Maes Chwarae Bryncastell unwaith eto, a phenderfynwyd gofyn i ymgymerwr i gael golwg arno a gweithredu yn fuan oherwydd gall fod yn beryglus i fynychwyr y maes. Mae hefyd angen adolygu sefyllfa offer chwarae Maes Chwarae Tregerddan, y rhai sydd wedi dirywio dros y gaeaf.

Deallir bod angen hysbysfwrdd mwy o faint na'r un a fwriadwyd ei bwrcasu gan gwmni Green Bar, er mwyn cynnwys map o ardal Tirymynach. Golyga gostio tipyn yn rhagor, ond mae ei angen.

Gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol i'w chynnal yng Ngheredigion yn y dyfodol, teimlwyd y byddai yn addas cael polyn ar gyfer baner ar gornel Afallen Deg, fel ag o'r blaen. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir a oes darpariaeth ganddynt megis polion, fel y bu unwaith.

Mae amser adnewyddu yswiriant y Cyngor a gwneir hynny yn fuan.

Adroddiad y Cynghorydd Paul Hinge. Gorsaf Bow Street, dywedodd bod nifer o fobl erbyn hyn wedi cael eu gweld yn defnyddio y gwasanaeth. Llwybr Bow Street i Gogerddan dywedodd fod y bin wedi ei symud i le mwy cyfleus a diogel. Y pyllau ar y ffordd i Glarach wedi eu llenwi, a bod y ffordd yn fwy llyfn eto. Adroddodd bod tir lithriad ar ymyl y ffordd ar y drofa a elwir yn "hairpin bend" rhwng Llangorwen a'r Amlosgfa a'i fod wedi galw hyn i sylw yr adran briodol. Does dim byd pendant hyd yma am y maes parcio ar dir preifat ar lan y môr yng Nghlarach ardal Glan y Môr, ac mae nifer o ddogfennau yn egluro y sefyllfa i'w cylchu i'r Cynghorwyr yn fuan. Roedd cwyn bod busnes yn cael ei rhedeg o dŷ preifat yn y Dole. A doedd dim byd pendant i'w adrodd am gais cynllunio am godi annedd newydd ar gornel cae ar gwr y gymuned.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Gyfarfod Blynyddol ar 27 Mai, am 7pm, ond oherwydd rheolau newydd o'r Senedd, ni ellir eto dweud ym mhle y cynhelir y Cyfarfod, efallai yn Neuadd Rhydypennau er mwyn i'r cyhoedd a'r wasg fod y bresennol, llawer yn dibynnu ar sefyllfa y Coronafirws.

# Bow Street

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Jennifer a Hywel Roberts, Maes-y-garn, ar enedigaeth dwy wyres fach – efeilliaid – Gwenllian a Tirion; merched bach i Caryl ac Owen Roberts yn Nhrefeurig, a chwiorydd i Alun a Gwern.

**Cydymdeimlad**
Fel y nodwyd yn *Nhincer* Ebrill o dan Llandre, cydymdeimlwyd â theulu Pat Kelly (Richards gynt), Maeshenllan. Daeth nifer o'i ffrindiau a'i chymdogion allan i waelod Tregerddan i ffarwelio â hi ar ddiwrnod ei hangladd.

**Gwella**
Da deall fod Lynda Edwards, Elerch, Maes-y-garn, adref ac yn gwella ar ol cyfnod yn yr ysbyty.

**Mis Ebrill yng Nghapel y Garn**
**Oedfaon**
Parhaodd yr oedfaon fore Sul i'r Ofalaeth ar Zoom dan arweiniad ein bugail drwy fis Ebrill, ond o hyn ymlaen bydd ein capeli hefyd yn cael eu hagor ar gyfer oedfaon.

Dyma'r manylion ar gyfer y Garn:
23 Mai – oedfa'r Pentecost am 10 o'r gloch dros Zoom
30 Mai – oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Gweinidog
6 Mehefin – oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Gweinidog
20 Mehefin – oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Gweinidog
27 Mehefin – oedfa dan arweiniad y Parchg Ifan Roberts (lleoliad i'w gadarnhau)


SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.


**Merched y Wawr**
Parhau i ddarparu'n rhithiol y mae Merched y Wawr yn genedlaethol ac yn rhanbarthol ac yn ystod mis Ebrill y mae cryn baratoi wedi bod ar gyfer yr Wyl Fai rithiol fydd yn cael ei chynnal ddechrau mis Mai. Yma yn Rhydypennau y mae'r enwebiadau ar gyfer swyddogion ar gyfer tymor 2020-22 wedi dod i law a'r gobaith yn awr, wrth i'r cyfyngiadau ddal i gael eu llacio, yw y byddwn yn medru cyfarfod ar gyfer ein Cyfarfod Blynyddol cyn diwedd mis Mai i ddechrau trefnu pethau ar gyfer y tymor newydd fydd yn dechrau ym mis Medi.

**Noddfa**
Diolch o galon i bawb fu'n arwain y Gyfeillach bob bore Sul yn ystod mis Ebrill. Unwaith eto bu'r themau yn amrywiol a diddorol, a hyd yn oed yn heriol. Wrth i nifer o gapeli ail ddechrau cyfarfod yn gorfforol wrth i'r ystadegau am frechiadau ac achosion newydd o'r Coronafeirws awgrymu bod y storm yn gostegu fe fyddwn ninnau yn cadw llygad ar y sefyllfa dros yr wythnosau nesaf gyda golwg ar weld a fydd modd i ni fedru cyfarfod yn gorfforol yn achlysurol yn ystod misoedd yr Haf.

**Cymorth Cristnogol**
Fel y llynedd y mae'r cyfyngiadau Coronafeirws yn mynd i gael effaith enfawr ar apêl flynyddol Wythnos Cymorth Cristnogol eleni eto er bod yr angen mor fawr ag erioed. Gan nad oes modd casglu o dŷ i dŷ yr ydym yn cael ein hannog i wneud ein gorau glas i gyfrannu yn ôl ein harfer trwy ddulliau amgen, ac mae'n sicr y bydd y capeli yn trefnu casgliadau hefyd.

**Cyngor Sir Ceredigion**
Erbyn y gwêl y geiriau hyn olau dydd bydd y Cynghorydd Paul Hinge wedi cael ei orseddu yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2021-22 ar y 14eg o Fai. Yr ydym yn ei longyfarch yn ddiffuant ac yn dymuno'n dda iddo. Bydd adroddiad pellach yn y rhifyn nesaf o'r *Tincer*.

**Cymdeithas y Chwiorydd**
Brynhawn Mercher, Ebrill 28ain, trefnodd ysgrifenyddes Cymdeithas y Chwiorydd, Shân Hayward, i'r aelodau gyfarfod yn yr awyr agored. Daeth pymtheg ohonom ynghyd i fwynhau paned a chacen a chlonc yng Nghrefftau Pennau a mawr oedd y llawenydd o weld hen ffrindiau am y tro cyntaf ers blwyddyn a mwy, gan barchu gofynion y pellter cymdeithasol wrth gwrs.










Aelodau cangen Yes Cymru Gogledd Ceredigion yn cynnal digwyddiad "Baneri" yn Bow Street bore dydd Sadwrn, fel rhan o ddigwyddiadau cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth am ymgyrch Yes Cymru dros annibyniaeth. Hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb am ymuno ag am ymateb cefnogol iawn, ac yn gobeithio trefnu ddigwyddiadau tebyg yn fuan lle bydd croeso i bawb

# Her Hanner Tymor

Dros hanner tymor y Sulgwyn gosodir her arall i gymuned Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn. Penderfynwyd codi arian tuag at elusen Ambiwlans Awyr Cymru mewn cysylltiad a'r 'Walk for Wales Challenge 2021'. Dros cyfnod yr hanner tymor, Sadwrn Mai 29ain tan dydd Sul 6ed o Fehefin, gosodwyd yr her ganlynol:

**Plant**

I gerdded cyfanswm o 16 milltir dros yr wythnos. Gan ddechrau ar ddydd Sadwrn y 29ain o Fai, ac yn gorffen ar ddydd Sul y 6ed o Fehefin, mae'n golygu cerdded ar gyfartaledd 2 milltir bob dydd. Byddwn yn cyfri'r milltiroedd gan ddefnyddio'r app Strava – gan ei fod wedi bod ' mor llwyddiannus yn ystod yr her diwethaf.

Byddwn yn rhannu'r ddolen ar gyfer ein tudalen Strava ar ein tudalennau Cyfryngau Cymdeithasol.

**Rhieni**

Pam ddim ymuno mewn yn yr hwyl?

a) Cerddwch gyda'ch plentyn tra yn cerdded 16 milltir dros yr wythnos o hanner tymor.

b) Ymgeisiwch gerdded 35 milltir dros yr wythnos.

c) Ymgeisiwch i gerdded 50 milltir dros yr wythnos.

Mae Mr Shepherd a Mr Davies yn teimlo yn ddewr. Mae nhw wedi dewis cerdded **50 milltir** ar ddydd Sul y 30ain o Fai. Mi fydd hyn yn her un diwrnod er mwyn codi arian i achos arbennig.

Mi fydd aelodau eraill o staff yn ymuno ar hyd y ffordd ac yn cwblhau 16 neu 35 milltir o gerdded efo nhw ar ddydd Sul y 30ain o Fai.

**Beth nesaf?**

Ymunwch efo'n tudalen Strava ar y ddolen isod er mwyn recordio eich milltiroedd dros yr wythnos hanner tymor:

Aberystwyth, Wales, United Kingdom Club | Ysgol Penrhyn-coch a Phenllwyn on Strava

Dilynwch y ddolen isod i'r tudalen Just Giving er mwyn cyfrannu tuag at yr achos arbennig hwn.

Bryn Shepherd is fundraising for IntroSport Trust, IntroTeach/ Cyfle Dysgu (justgiving.com)




## Goginan

**Llywydd Clwb Golff**

Llongyfarchiadau i Aled Bebb, Penpistyll ar gael yr anrhydedd o fod yn lywydd Clwb Golff Aberystwyth. Derbyniodd Rhuban y Swydd oddi wrth brodor arall o ardal *y Tincer*, sef Terry Richards, Ger-y-llan, Penrhyn-coch a fu yn lywydd am dair blynedd.



**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Mrs Iris Richards a Mrs Meryl Tomkinson ar farwolaeth cyfnither i Mrs Richards – Megan Eirwen Walkingshaw, Brongwinau, Comins-coch.

## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 16 Mawrth 2021 ar y we. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Delyth James. Roedd y cynghorwyr Mel Evans, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Richard Owen, ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Edwina Davies ac Iona Davies.

Cynllunio: A210142, cais am estyniad i Maesteg, Pen-bont Rhydybeddau – dim sylwadau. Adroddodd y Cyngh. Dai Mason fod y cais am bum pod gwyliau ym Mancydarren wedi'i wrthod, gyda'r awgrym i wneud cais newydd i'w gosod yn nes at y fferm.

Adroddodd Dai Mason hefyd y byddai cynnydd o 3.9% yn y dreth gyngor yn 2021/22.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 20 Ebrill 2021 ar y we. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Delyth James, ac roedd yr un cynghorwyr yn bresennol.

Y llwybr ceffylau o Dynpynfarch i Frogynin: penderfynwyd cysylltu gyda Gareth Owen, swyddog llwybrau Cyngor Ceredigion, ynglŷn â chyflwr y llwybr hwn. Ar y rhan o Dynpynfarch i'r gât oedd yn mynd i'r cae, roedd y coed a'r tyfiant y naill ochr a'r llall bron â chwrdd â'i gilydd. Hefyd roedd weiren bigog ar y gât ger Brogynin.

Cynllunio: Dolywern, Penrhyn-coch – codi estyniad ar ôl chwalu estyniad presennol – dim sylwadau.

Prosiect Môr a Mynydd: gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd gwahodd Shan Stacey i gyfarfod mis Mehefin i sôn am y cynllun hwn. Cytunwyd i hynny.




**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

## Colofn **Elin Jones AS**

Wel, mae’r etholiad heibio a mi oedd hi’n dipyn o sioc i mi mae’n rhaid dweud i glywed y canlyniad ar brynhawn Gwener cyntaf Mai yn Ysgol Bro Teifi yn Llandysul.

Roeddwn yn gobeithio, wrth gwrs, i gael fy ethol unwaith eto i gynrychioli Ceredigion, ond roedd maint y mwyafrif yn annisgwyl. Diolch i’r 16,946 person a roddodd eu ffydd ynof fi i barhau gyda’r gwaith. Roedd clywed y ganran o 55.1% a’r mwyafrif o 12,145 yn sioc fawr.

Rwyf ar ddeall erbyn hyn, mai dyma’r mwyafrif mwyaf ond un yn hanes etholiadau datganoledig yng Nghymru. Cafodd Dafydd Wigley 12,273 yn etholiad cyntaf y Cynulliad yn 1999 – 128 yn fwy.

Hoffwn ddiolch i bobol Ceredigion am fy ailethol unwaith eto. Dyma’r chweched tro i mi gynrychioli Ceredigion yn y Senedd. Mae’n fraint o’r mwyaf i dderbyn gymaint o




gefnogaeth, yn enwedig ar ôl blwyddyn anodd i nifer yng Ngheredigion a thrwy Gymru.

Rhaid i mi ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgyrch anarferol yma. Diolch i bawb am y negeseuon o gefnogaeth, ac am roi o’u hamser i ddosbarthu taflenni neu gnocio ar ddrysau pan roedd yna gyfle.

O dan yr amgylchiadau Covid, dim ond tua tair wythnos o ganfasio oedd ar gael i ni yn ôl y rheoliadau. Mae pobl Ceredigion yn hoffi siarad yn uniongyrchol gyda’u cynrychiolwyr, felly roeddwn yn awyddus i wneud hynny gymaint fedrwn i. Braf oedd cael y cyfle i sgwrsio gyda nifer ohonoch, a diolch am eich croeso. Diolch hefyd i bawb a weithiodd ar ran y Cyngor Sir i weinyddu’r etholiad a chyfrif y pleidleisiau.

Mae’r gwaith yn awr yn parhau fel Aelod o’r Senedd dros Geredigion, gyda’r flaenoriaeth tymor byr wrth gwrs ar ddiogelu pobl Ceredigion ac adfywio ein heconomi, wrth i ni barhau i adfer o’r pandemig.

Mae’n fraint hefyd i gael fy ailethol yn Llywydd y Senedd. Yn ystod y Senedd ddiwethaf, roeddwn yn falch iawn o weld ehangu cyfraniad pobl ifanc at ein democratiaeth. Rwy’n edrych ymlaen at fedru parhau gyda’r gwaith yma a mwy.

Llongyfarchiadau hefyd i’r 4 Aelod o’r Senedd a gafodd eu hethol dros y Canolbarth a’r Gorllewin – Eluned Morgan, Joyce Watson, Cefin Campbell a Jane Dodds. A llongyfarchiadau gwresog iawn i Dafydd Llywelyn ar gael ei ail-ethol yn Gomisiynydd Heddlu Dyfed-Powys.

Mae croeso i chi gysylltu os allaf fod o unrhyw gymorth ichi, drwy ffonio fy swyddfa ar: 01970 624516 neu e-bostio: elin.jones@senedd.cymru



# Etholiad Senedd Cymru 2021

Roedd etholiad Senedd Cymru 2021 yn etholiad rhyfedd. Bu'r wlad dan glo am rannau helaeth o flwyddyn, gyda phobl yn methu cwrdd a chymysgu yn ôl yr arfer. A Covid fu'r prif newyddion am flwyddyn gron a mwy. Pan ddaeth hi'n adeg ymgyrchu, rhyw hanner ymgyrchu oedd yn bosib i ddechrau – hawl i ddosbarthu taflenni, postio deunydd i bobl, ffonio a rhoi pethau ar Facebook a Trydar. Yn ystod y tair wythnos olaf, daeth hawl i fynd a chnocio drysau, er yn betrus iawn ar y cychwyn. Er gwaethaf hyn, ar gyfartaledd trwy Gymru fe bleidleisiodd 47% o'r etholwyr, yr uchaf erioed, ychydig yn uwch na 1999 hyd yn oed. Oherwydd Covid fe fanteisiodd mwy o bobl nag o'r blaen ar y bleidlais bost, ac fe fu hynny'n gymorth yn sicr.

Fe fu'n ddiwrnod da iawn i'r Blaid Lafur: fe gynyddodd eu pleidlais, fe lwyddon nhw i gipio'r Rhondda oddi ar Blaid Cymru a dim ond un etholaeth gollon nhw yn y gogledd ddwyrain, lle'r oedden nhw wedi colli pedair yn etholiad San Steffan yn 2019. Roedd hi'n farn gyffredinol fod Mark Drakeford wedi bod yn gall a phwyllog wrth ddelio efo Covid ac wedi gwneud ei orau mewn sefyllfa enbyd o anodd. Hefyd fe gafodd o lawer iawn o sylw o achos yr argyfwng, ac yn sicr bu hyn i gyd o fantais fawr iawn i Lafur eleni. Fe gynyddodd pleidlais y Toriaid hefyd, ac fe enillon nhw ddwy etholaeth, sef Dyffryn Clwyd a Brycheiniog a Maesyfed. Aros yn ei hunfan wnaeth pleidlais Plaid Cymru trwy Gymru, ond fe wnaeth yn dda iawn yn y pum etholaeth y mae'n eu dal o Fôn i Ddwyrain Caerfyrddin.

Un o'r rhain wrth gwrs yw Ceredigion, ac fe wnaeth Elin Jones yn eithriadol o dda yma, gan ennill bron i 17,000 o bleidleisiau, sef 55% o'r rhai a bleidleisiodd. Mae hyn yn dystiolaeth i'w phoblogrwydd yn y sir ar gorn gwaith caled ac effeithiol dros flynyddoedd lawer. Mae hi'n ymladdwraig ddi-ildio dros Geredigion, ac yn sicr yn haeddu'i buddugoliaeth. Bellach mae hi wedi'i hailethol yn Llywydd Senedd Cymru am dymor arall.

Gwan iawn fu ymgyrch y Democratiaid Rhyddfrydol trwy Gymru eleni, gan gynnwys yng Ngheredigion. Yn wir, fe ddaethant yn bedwerydd yma, a hwythau'n ail da yn 2016. Bellach does ganddynt yr un sedd etholaeth yn San Steffan na Chaerdydd. Yn y deng mlynedd diwethaf, fe siomon nhw wahanol garfanau o'u cefnogwyr, yn gyntaf trwy gefnogi llywodraeth Doriaidd yn ystod 2010-15, ac yna trwy wrthwynebu Brecsit, ac fe chwalodd eu pleidlais. Yr unig lygedyn o olau iddynt oedd i Jane Dodds, eu harweinydd, lwyddo i ennill sedd restr yma yn y Canolbarth a'r Gorllewin.

Y rhai a gollodd fwyaf, diolch i'r drefn, oedd y pleidiau hynny oedd am ddileu'r Senedd, sef UKIP ac Abolish the Assembly. Fe etholwyd saith aelod UKIP yn 2016 a dim un eleni. (Dyna'r prif reswm, gyda llaw, pam fod Llafur a'r Ceidwadwyr wedi llwyddo i gynyddu eu pleidlais. Fe ddaeth y pleidleisiau yna yn ôl atynt.) Rwy'n siŵr y bydd Elin Jones fel Llywydd yn falch iawn o weld eu cefnau!



| | | |
|---|---|---|
| **Elin Jones** | Plaid Cymru | 16,946 |
| **Amanda Jenner** | Plaid Geidwadol Cymru | 4,801 |
| **Dylan Lewis-Rowlands** | Plaid Lafur Cymru | 3,345 |
| **Cadan ap Tomos** | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | 3,227 |
| **Harry Hayfield** | Plaid Werdd Cymru | 1,356 |
| **Gethin James** | Reform UK | 775 |
| **Stephanie Evans** | Freedom Alliance | 305 |
| | **MWYAFRIF** | **12,145** |

YTincer@googlemail.com

## Madog Dewi / Cefn-llwyd

**Ennill gwobr**

Llongyfarchiadau i Dr Hanna Binks ar ennill gwobr Cwrs Eithriadol Prifysgol Aberystwyth.



## Capel Dewi

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Dylan a Nia Jones, Maes yr onnen, a'r teulu ar farwolaeth sydyn brawd Dylan – Dewi Llewelyn ym Mangor ar Fai 8fed.

**Pen blwydd arbennig**

Pen blwydd hapus i Dei Evans (Dei Coed), Fferm y Fronfraitb,fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 60 ar 28 Mai.



# Clymau'r clo

Tybed faint ohonom sydd wedi ymroi i ddiddordeb newydd yn ystod y cyfnod clo? Dyna fu hanes Georgina Evans o Benrhyn-coch. Mae'n amlwg bod Georgina yn un sy'n mwynhau bod yn brysur ac yn benderfynol o droi ei llaw at brosiectau amrywiol. Ar ddiwedd yr haf ac ar ddechrau'r hydref roedd y tywydd yn oeri a'r dyddiau'n byrhau a chan nad oedd modd iddi weithio yn yr ardd, aeth ati i addurno'r ty. Roedd hi wedi gweld addurniadau macramé ac yn hoff iawn ohonynt ac am gael addurniadau o'r fath yn ei thŷ ei hun, ond yn hytrach na mynd i siop i'w prynu, penderfynodd fynd ati i ddysgu'r grefft. Unwaith yr oedd wedi dechrau, nid oedd yn gallu rhoi'r gorau i'r grefft hon sy'n dibynnu ar glymu llinyn mewn ffordd gelfydd, er mwyn creu addurniadau ac eitemau hardd. Roedd Georgina'n benderfynol o feistroli'r grefft hon ac wrth i'w ffrindiau weld yr eitemau yr oedd wedi'u creu, dechreuodd dderbyn archebion ganddynt ac aeth ati i sefydlu ei busnes ei hun – **Lots of knots Wales**. Roedd safon y gwaith yn amlwg yn plesio ei chwsmeriaid ac erbyn hyn mae rhestr aros am ei gwaith a llawer o gwsmeriaid yn dychwelyd ati dro ar ôl tro. Mae ei chwsmeriaid yn prynu ar eu cyfer eu hunain ond hefyd yn rhoi ei chynnyrch yn anrhegion ar achlysuron arbennig. Mae Georgina'n feistres ar bacio cywrain ac mae'n werth gweld y modd y mae'n cyflwyno'i chynnyrch. Nid yn unig mae hi'n ymwybodol o'r cyflwyniad ond mae hi hefyd yn ymwybodol o'r amgylchedd ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ei chynnyrch yn gynaliadwy ac yn parchu'r amgylchedd. Mae'r llinyn y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer ei gwaith macramé yn llinyn nad yw'n cynnwys plastig ac mae hi'n ymdrechu i sicrhau bod y deunyddiau y mae'n eu defnyddio yn ddeunyddiau mor lleol â phosibl. Nid yw ei busnes yn gyfyngedig i waith macramé ond mae hi hefyd yn gwehyddu ac yn nyddu ac mae ganddi gynlluniau ar gyfer datblygu ei gwaith ymhellach i greu addurniadau macramé ar gyfer priodasau.

Gellir gweld enghreifftiau o'i gwaith ar y we ac mae modd archebu cynnyrch drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Georginaevans85@hotmail.com neu 07989421392







## Penrhyn-coch

**Ailagor Eglwys S. Ioan, Penrhyn-coch**

Bydd Eglwys S. Ioan Penrhyn-coch yn ailagor ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ddydd Sul 23 Mai am 11.00am gyda gwasanaeth dwyieithog o'r Cymun Bendigaid ar gyfer Dydd y Pentecost.

Bwriedir cynnal gwasanaethau wedyn bob pythefnos ar yr un amser. Felly bydd y gwasanaethau nesaf yn Eglwys S. Ioan ar 6 ac 20 Mehefin.

Bydd yr eglwys yn ailagor yn dilyn canllawiau'r Eglwys yng Nghymru a Llywodraeth Cymru (fel y maent wrth i'r pwt hwn gael ei ysgrifennu, gan wybod fod newidiadau ar droed). Golyga hyn mai nifer gyfyngedig all fod yn y gynulleidfa. Felly os ydych chi am ddod i'r gwasanaethau rhaid rhoi gwybod ymlaen llaw i un o'r wardeniaid – Mrs Jane Jones (624160) neu Mrs Edwina Davies (828296) – ac yna cewch wybod a oes lle ar gael. Bydd gwasanaethau Cymraeg ar-lein plwyf Bro Padarn ar Zoom yn parhau yn ystod y cyfnod hwn. Byddan nhw hefyd yn cael eu cynnal bob pythefnos am 3.00pm ar yr un dyddiadau, sef 23 Mai, 6 a 20 Mehefin. Am ragor o wybodaeth am sut i ymuno gyda'r gwasanaethau hynny cysylltwch gyda'r Parchg Lyn Dafis (820162).

**Horeb**

Roedd yn braf bod yn ôl yn addoli yn Horeb mewn oedfa dan ofal y Parchg Peter Thomas brynhawn Sul 16 Mai. Bydd oedfa arall fore Sul 23 Mai am 10.30 dan ofal y Parchg Judith Morris a threfnir oedfaon pellach yn fuan.







**Elen, Ifan, Florence a Miriam – aelodau o Glwb Sul Horeb, sydd yn cwrdd ar Zoom, gyda'r thema "Moses yn yr Hesg".**





Glenys Morgan





**Cylch Meithrin Trefeurig**
Mae plant y cylch yn brysur iawn y tymor yma yn dysgu am gylch bywyd y lindysyn/pili pala. Maent wedi bod yn mwynhau stori Y Lindysyn Llwglyd, wrthi yn creu crefftau o'r stori ac yn arsylwi ar y datblygiad.







Felicity Broadhurst

**Merched y Wawr**
Llongyfarchiadau i gangen Merched y Wawr Penrhyn-coch am ennill y mwyaf o bwyntiau yng Ngŵyl Fai Rhanbarth Ceredigion a gynhaliwyd dydd Sadwrn 8fed o Fai. Enillwyd y Darian am y mwyaf o bwyntiau gyda 25 pwynt, daeth Cangen Aberystwyth yn ail gyda 13 pwynt a Changen Cylch Wyre yn 3ydd gyda 11 pwynt. Dyma'r enillwyr:

*Coginio:*
Tri phwdin 1af Glenys Morgan

*Crefftau:*
Byntin 1af Glenys Morgan
Clustog 1af Delyth Jones
Uwch Gylchu 1af Delyth Jones
Eitem yn defnyddio broc môr 1af Delyth Jones
Crefft yn cynnwys Cennin Pedr 1af Delyth Jones

*Ffotograffiaeth:*
Ceredigion 2il Delyth Jones 3ydd Felicity Broadhurst

*Blodau:*
Trefniant dail yn unig 2il Glenys Morgan
Blodyn priodas i fenyw 2il Glenys Morgan.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Dr Gareth a Rhian Lanagan symudodd yn ddiweddar Lanfihangel-y-creuddyn ar enedigaeth merch fach – Ela Grug – ar 16 Mawrth, chwaer fach i Gruff.

Ac i Llifon a Nia Ellis, Ger-y-cwm, ar enedigaeth merch – Mirain Grug Ellis – ar 8 Mai.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Steve Hopton, Ger-y-llan, ar golli tad Steve yn ddiweddar, sef Billy Hopton, Llanbadarn; hefyd â theulu y diweddar Daniel Titley, Comins-coch oedd yn un o deulu Hafan, Penrhyn-coch gynt ac â Sue a Ken Richards, Maesheulog ar golli chwaer Ken, sef Pat Kelly, Llandre.

**trefeurig.cymru**
Cafwyd dros 700 o ymwelwyr y mis i'r wefan newydd eleni ac nid o blwyf Trefeurig yn unig. Mae rhai o'r Unol Daleithiau, China, Canada, Ffrainc, Ariannin, Awstralia, Singapore a'r Almaen yn troi ati yn rheolaidd. Felly os ydych am roi Trefeurig ar y map, anfonwch eitemau o newyddion, hanesion, hysbysebion, cyfarchion, hen luniau, neu ddigwyddiadau trwy ebost @whhowells@gmail.com A nawr bod y cyfyngiadau yn dechrau llacio mae'n werth ichi edrych yn y Dyddiadur i weld a oes rhywbeth ymlaen …

*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*

**Gwefan Cymuned Trefeurig**

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website    Trefeurig8
whhowells@gmail.com



# Capel Bangor

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Hal Young, Gwarcwm, sydd wedi ei wobrwyo yn ddiweddar o Brifysgol Warwick, gyda gradd meistr, (M.A.) mewn astudiaethau ffilm.

Da iawn Hal, a dymuniadau gorau i'r dyfodol. Mae erthygl o'i eiddo hefyd wedi ymddangos yn rhifyn 98 o'r cylchgrawn ffilm Awstralaidd *Senses of cinema* – bywgraffiad beirniadol o'r cyfarwyddwr ffilm Nobuhiko Obayashi o Japan.



**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Trystan a Seren Hammond, 2 Tyllwyd ar enedigaeth merch fach, Leisi Wyn, ar Ebrill 27.

**Cylch Meithrin Pen-llwyn**

Canolbwyntiwyd y mis yma ar fyd natur ein milltir sgwâr. Rydym wedi bod yn hynod lwcus o gael Aderyn y To yn nythu yn ein bocs adar sydd ochr arall ein ardal wylio a braf gweld bod yr wyau wedi deor sy'n ein galluogi i wylio datblygiad yr adar bach. Mae'r ardal allanol ar ei newydd wedd yn werthfawr iawn i ddatblygiad ein plant a medrwn fwynhau yn yr awyr agored ym mhob tywydd. Mae'r Cylch ar agor 5 diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol o 9yb – 3yp ar gyfer plant rhwng 2 a 4 mlwydd oed. Os hoffech fwy o wybodaeth, ebostiwch cmpenllwyn@gmail.com









## Mwy o luniau tai Capel Bangor yn dilyn erthygl y mis diwethaf



Llythyrdy, Tŷ Capel a Chapel Pen-llwyn



Thomas y llaeth efo cert Troedrhiwlwba







# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Ioan Lord, Gellifach, ar farwolaeth ei dad-cu allan yn Texas.

# Dôl-y-bont

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â John a Sian Cory, Bryngwyn, ar farwolaeth chwaer John, Sian Phillipa yn Bedford yn ddiweddar.


**Croeso**

Mae Gerwyn Lewis wedi symud i fyw i Bryneithin. Gobeithio y bydd yn hapus yn ein plith.

YTincer@googlemail.com

# Rhwng Teifi, Dyfi a'r Don

Golygydd: Idris Reynolds
luniau: Iestyn Hughes.
Barddas 104t. £12.95.




Mae yn y gyfrol fach hynod hylaw hon 44 o gerddi gan 44 o feirdd cyfoes. Fel yr esbonia'r golygydd yn ei ragair cyfyngwyd y dewis i feirdd oedd yn dal yn fyw ar droad y ganrif, felly nid cyfrol o hen ffefrynnau mohoni ond blodeugerdd o gyfansoddiadau lled-ddiweddar am fannau a thrigianwyr Ceredigion. Mae yma hefyd tua 90 o ffotograffau llygad-dynnol.

Cywydd Croeso Anwen Pierce i Eisteddfod Ceredigion – a ddylai fod wedi cael ei chynnal yn 2020 – sy'n agor y gyfrol. Difyr gweld bod Anwen wedi ychwanegu chwe chwpled at ei chywydd gwreiddiol, yn cynnwys y geiriau swynol a gobeithiol:

ond er yr her, gwn daw'r ŵyl
i'w hafan; fe ddaw prifwyl.
Daw'r haf eilwaith drwy'r felan
A su'r gors i g'nesu'r gân.

Mae'r cerddi'n amrywio rhwng y dwys a'r lled ysgafn. Gafaelodd rhai ynof ar y darlleniad cyntaf, e.e. *Cyn y Don Nesaf* Elin ap Hywel sydd yn arbennig o berthnasol i'n cyfnod ni heddiw pan mae cymaint o newidiadau ysgytwol yn digwydd o'n cwmpas, *Arfordir* Megan Elenid Lewis a'i neges am bwysigrwydd ac arwyddocâd enwau llefydd ac agweddau dieithriaid atyn nhw, *Tyddyn* Vernon Jones sy'n gyffes angerddol o'i falchder yn ei etifeddiaeth, a chlodgerdd osgeiddig Ann Rhys Davies *I Euros Lewis*. Wrth ail-ddarllen daeth rhagor o berlau i'r amlwg; yn wir fe aeth yn gynyddol anos i roi'r llyfr i lawr.

A beth am y lluniau? Mae'r llun sydd ar y clawr fel hen ffrind i bobl fel fi a dreuliodd flynyddoedd lawer yn teithio rhwng dyffrynnoedd Teifi a Dyfi. Mae'r modd y mae dyfnder y pellter rhwng y gwartheg ar dir y Morfa Mawr yn y blaendir a mynyddoedd Meirion a Maldwyn yn y cefndir yn cael ei gyfleu i'r llygad yn drawiadol o gelfydd, felly hefyd y gwrthgyferbyniad rhwng amlygrwydd clochdy eglwys Llansantffraid ar y morfa agored a meindwr encilgar eglwys Llanrhystud yn y coed.

Gyda chymaint o luniau o'n cwmpas bob dydd gall y darluniadol fynd yn ystrydebol; does dim perygl o hynny yng ngwaith Iestyn Hughes. Mae pob llun yn gwneud mwy na boddhau'r llygad, yn enwedig felly symudiad y cymylau a sglein y cerrig ar *Draeth Cwmtydu ym Medi*, cysgod y cwmwl bygythiol dros *Lif Coch Awst*, a llwybr di-gledrau y *Rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin.*

Er mor hudol y llun sy'n mynd gyda cherdd hyfryd Huw Meirion Edwards, *Llanfihangel dan Eira*, mae argraffu'r geiriau yn wyn ar lwydlas golau yr awyr yn ei gwneud hi'n anodd eu darllen, a heb ychwanegu dim at y darlun. Mae yma enghreifftiau eraill hefyd lle mae'r geiriau wedi eu gosod ar y tirlun a'r cyfanwaith yn gwneud llai na thegwch â'r naill gyfrwng na'r llall. Dylid ymddiried yng nghrebwyll y darllenydd, mi dybiaf, i greu uniad rhwng y gair a'r ddelwedd.

O ran ei maint a'i phwysau mae hon yn gyfrol y gallwch fynd â hi gyda chi ar daith hir neu ar wyliau. Mae yma ddigon o amrywiaeth a pheth wmbredd o sylwedd i gnoi cil arno yn y geiriau a'r lluniau – gallaf ei gweld yn destun sgwrs mewn amal i gyfarfod cymdeithasol boed hwnnw yn y cnawd neu ar y sŵm bondigrybwyll. Ac mae cynnwys bywgraffiadau'r beirdd yn ychwanegiad pwysig a gwerthfawr. Mae'n fargen am y pris.

**Llinos Dafis**

## Cyngor Cymuned GENEU'R GLYN

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor: cyngorcymunedgeneurglyncommunitycouncil.wordpress.com**

**Dyddiad y Cyfarfod**: 26.04.2021 yn rhithiol, 'roedd 2 aelod yn absennol.


**Trafodwyd**:

- **Cais Cynllunio:** A210284 Captains House Dôl-y-bont;
- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar wefan y Cyngor;
- **Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Derbyniwyd 2 lythyr o ddiolch yn sgîl ail agor y parc, trafodwyd datblygiadau i'r parc yn y dyfodol, cadarnahwyd fyddai Awdit yr offer chwarae yn cael ei gynnal gan RoSPA yn y misoedd i ddod, 'roedd arwyddion 'Dim Ysmygu' wedi'i gosod;
- **Adroddiad gan y Cyng Ray Quant**: Derbyniwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol ledled Ceredigion;
- **Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf**: Datblygiadau'r Parc yn y Dyfodol;
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn cynnwys y cyfarfod blynyddol ar 24 Mai 2021.

## Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

**Land of Lead** llyfr newydd a gyhoeddwyd gan Y Lolfa yn rhoi cipolwg ar hanes cymdeithasol, economaidd a gwerin gogledd Ceredigion ar adeg o newid mawr, ynghyd â chyffwrdd â hanes Aberystwyth a'r wlad o gwmpas, gan edrych ar amaeth, mwyngloddio a chyflogaeth forwrol yn yr ardal. Mae'r gyfrol hefyd yn cynnwys detholiad o gopïau nas cyhoeddwyd o'r blaen o luniau dyfrlliw o'r 19eg ganrif yn llaw'r Capten William James, yn darlunio hanes morwrol Aberystwyth a llongau hwylio.





**Gweler t19**



**Mae criw wedi dechrau ymarfer pêl-rwyd ar gwrt tennis Penrhyn-coch ar nosweithiau Mercher a Iau dan hyfforddiant Tricia Chapman. Gellir cysylltu ar Coach4bb@gmail.com 07773326323**

**Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch**
Da yw deall fod y clwb yn dal i fynd o nerth i nerth ac yn sgîl y llwyddiant wedi codi estyniad. Alun Hughes fu wrth y gwaith, ac i gydnabod hynny mae'r estyniad wedi cael ei enwi yn Teras Trawsnant – sef enw hen gartref Alun a'i deulu. Dymunwn yn dda i Debbie, Carwyn ac Andrew yn eu gwaith caled o redeg y clwb. Coeliwch chi fi, mae yn waith caled i redeg unrhyw fath o dafarn. Felly pob hwyl iddynt yn y fenter hon eto, a hir oes i'r clwb. Mae yna groeso cynnes i bawb sydd yn mynd yno bob amser.






**Hanes Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch**
Yn rhifyn Ebrill o'r cylchgrawn *Welsh Football* cyhoeddwyd ysgrif hynod ddiddorol gan Stuart Townsend yn olrhain hanes CPD Penrhyn-coch, ers ei sefydlu ym 1965. Mae'r cylchgrawn ar werth mewn siopau llyfrau Cymraeg Aberystwyth am £3-00
Cafodd y Clwb yn ddiweddar Drwydded Rheng 2 gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru i gystadlu yn ngynghreiriau Cymru.

# Cartref

'Does unman yn debyg i **gartref**', sef, yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru, 'Y man lle bo dyn a'i deulu yn arfer byw, trigfan, preswylfa'.* Dros gyfnod y pandemig, yr ydym wedi treulio mwy o amser nag arfer yn ein cartrefi wrth geisio gwneud ein rhan i rwystro lledaeniad y firws Covid-19. Fel arfer, ein cartref yw'r lle yr ydym yn dychwelyd iddo i ymlacio ar ôl diwrnod o waith, ond oherwydd y gwaharddiadau, mae ein cartrefi yn awr hefyd yn weithle, gyda nifer ohonom wedi creu swyddfa fach ar fwrdd y gegin, neu yng nghornel ystafell arall. Tipyn o newid byd, gyda'r llinellau rhwng gwaith a chartref wedi pylu. Serch hyn, ein cartrefi yw ein **noddfa** (*lle sy'n rhoddi cysgod neu amddiffyniad*), ac maent o bob maint a chynllun.

Efallai mai **maenordy** (*tŷ arglwydd y faenor*), **plas**, **bwthyn**, **byngalo**, **hendy** (*hen dŷ neu blasty*) **fflat,** neu hyd yn oed *tŷ â tho o gawn neu wellt crin*, sef **crindy,** yw eich **trigias** (*trigfan, preswylfa*). Ond gobeithio bod modd i chi **fudo** (*symud tŷ*) os mai **briwdy** (*tŷ drylliedig*), **cwthwal** (*hofel*), **lluest** (*trigfan dros dro wedi ei chodi ar frys*), **magwyren** (*adfail*) neu **furddun** (*adeilad wedi mynd a'i ben iddo*) yw eich **edrydd** (*cartref*). Mae pawb yn haeddu **adlam** (*trigfan sefydlog*), petai'n **faesty** (*tŷ yn y wlad*), neu **ddinasty** (*tŷ yn y dref*), ac os ydych am godi tŷ newydd, gwnewch yn siŵr nad yw'n **hogl** (*adeilad chwithig ei gynllun)* nag yn dŷ **trafaelus** (*a llawer o waith cerdded ynddo)*, a bod iddo ddrws ffrynt pwrpasol, nid **berddor** (*drws allanol isel)*. Bydd angen digon o le **tan y gronglwyd** (*yn y tŷ*) ar gyfer pawb sydd am **gytya** (*cyd-fyw*) ynddo – fyddai'n annifyr gorfod **didyo** (*troi allan o dŷ*) aelod o'r teulu!

Gobeithio eich bod wedi eich difyrru gan yr enwau llai adnabyddus, ac os ydych am ddarganfod rhagor amdanynt, cymerwch olwg yn y Geiriadur, naill ai drwy bori yn y cyfrolau print neu yn y Geiriadur Ar Lein – ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html.

Os ydych yn gwybod am enwau diddorol eraill yn ymwneud â'r cartref, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:
*Geiriadur Prifysgol Cymru,*
*Canolfan Uwchefrydiau*
*Cymreig a Cheltaidd,*
*Llyfrgell Genedlaethol Cymru,*
*Aberystwyth, Ceredigion,*
*SY23 3HH*

## CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES


Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 30 Mehefin 2021.

Yr ysgrifennydd yw:

**Delyth Davies**
Bryn Siriol, Lluest, Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3AU
01970 629984 | e-bost delythdavies6@gmail.com

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Ar y gefnen sy'n gwahanu Cwm Ceulan a Chwm Tŷ-nant, i'r dwyrain o Dal-y-bont, mae mynydd a elwir ar lafar yn *Moel Fferem* (er mai *Moel Fferm* yw'r ffurf a gofnodir ar fapiau'r Arolwg Ordnans). Ac yn swatio wrth ei gesail ddeheuol, ar lan Nant Bwlchydderwen, mae adfeilion tyddyn *Moelfferem*.




©Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey (100025252).



**Adfeilion *Moelfferem* yn y coed gyda mynydd *Moel Fferem* y tu cefn iddo.**

Daw'r cyfeiriad cynharaf at yr enw o ewyllys Rees Lloyd, Lovesgrove (LlGC SD/1702/58: http://hdl.handle.net/10107/445651) a luniwyd yn 1701, lle mae'n nodi ei ddymuniad i adael 'Llwyn Nant y Diniewid otherwise called Moel y Ferem' i'w fab, Charles Lloyd.

Amrywiad yw *fferem* ar yr gair *fferm*, gyda'r *-e-* olaf o bosibl yn llafariad ymwthiol, fel ag a geir yn y ffurfiau llafar *cefen* am *cefn* a *hafan* am *hafn*. Er mai 'daliad amaethyddol' neu 'dyddyn' yw ei ystyr arferol heddiw, yn hanesyddol gall hefyd olygu 'rhent, treth, toll, neu daliad'. Gan fod yr enghraifft gynharaf o *fferm* yn yr ail ystyr hon yn digwydd yng ngwaith Dafydd ap Gwilym (http://www.dafyddapgwilym.net/ 129.25-6: Talwn *fferm* porth Abermaw / Ar don drai er ei dwyn draw), a bod Brogynin, man geni'r bardd, heb fod ymhell o *Foelfferem*, tybed ai dyna yw arwyddocâd yr elfen *fferem* yn yr enw lle mewn gwirionedd, yn hytrach na'r ystyr sy'n gyffredin i ni heddiw?

Mae'n bosibl mai'r un elfen a welir yn yr enw *Rhyd y Fferem*, Treopert, sir Benfro (gweler B. G. Charles, *The Place-Names of Pembrokeshire*, (1992) 211).

Digwydd amrywiad arall ar *fferm*, sef *fferam*, ar lafar yn gyffredin ym Môn, a cheir enghreifftiau niferus o'r elfen mewn enwau lleoedd ar yr ynys, megis *Fferam Gorniog* yng Nghaergybi a *Thywyn Fferam* ger Llanfaelog (gweler Glenda Carr, *Hen Enwau o Ynys Môn*, (2015) 168-9).

Soniais yn gynharach bod *Moelfferem* yn cael ei adnabod hefyd ar un adeg fel 'Llwyn Nant y Diniewid'. Gellir olrhain enw'r nant yn ôl ymhellach, gan y crybwyllir 'llayne rhwng Nant Evan Dio and Nant y Dyniewid' yn un o weithredoedd Stad Hendrefelen yn 1673.

Dichon mai *dyniawed* yn golygu 'buwch flwydd i ddwyflwydd oed' neu 'bustach' yw'r elfen olaf yma. Os *Llwyn Nant y Dyniawed* oedd hen enw tyddyn *Moelfferem*, tybed, felly, ai hen enw *Nant Bwlchydderwen*, y nant sy'n llifo heibio i adfeilion *Moelfferem*, oedd *Nant y Dyniawed*?

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**


Eirian Reynolds, Tech. S.P.

**GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**

Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant

**01970 820124**
**07709 505741**

**SIOP SGLODION**
**BOW STREET CHIPPY**

4.30pm – 8.30pm
Mawrth – Sadwrn

Mae modd archebu o flaen llaw dros y ffôn
**01970 820567**



# Difyrion Digidol

gyda **Deian ap Rhisiart**

Yn y golofn ddiwethaf, y testun dan sylw oedd cynnwys Cymraeg ar y We ac mi rydw i am gadw yn fras ar yr un pwnc y tro hwn trwy fwrw golwg ar yr adnoddau cymorth iaith sydd ar gael.

Dwi'n siwr eich bod wedi crafu pen lawer gwaith yn chwilio am gyfieithiad i air Saesneg sy'n rhy ddiweddar i gopi caled o Eiriadur yr Academi – Peidiwch mynd yn bell! mae yna gymorth hanfodol ar gael trwy'r *Ap Geiriaduron* neu Eiriadur yr Academi ar y We. Dyma ddwy adnodd cwbl amhrisiadwy i'ch cynorthwyo wrth ysgrifennu. Mae Geiriadur yr Academi ar y We yn cael ei ddiweddaru'n gymharol gyson ac mae unrhyw dermau newydd yn cael eu hychwanegu at y rhestr. I gyrraedd hwn ewch chi https://geiriaduracademi.org/ ond yn amlwg mae'n cyfieithu yn unig o'r Saesneg i'r Gymraeg. Yr hyn sy'n dda am yr *Ap Geiriaduron* – yw ei fod yn bosib cyfieithu gair o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae hefyd yn galluogi i chi ganfod beth yw ffurf y gair a'i genedl enw ac mae hyd yn oed yn gweithio fel odliadur, dim ond i chi roi y symbol * o flaen y gair yn y blwch chwilio. Os nad yw'r gair yr ydych yn chwilio amdano yn yr ap, mae'n caniatau i chi fynd yn awtomatig at y Porth Termau Cenedlaethol i weld os ydio yn fanno. Mae'r wefan hon yng ngofal y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn elwa o arbenigedd adrannau prifysgol ym maes y gwyddorau, y gyfraith a'r celfyddydau. Gellir canfod y Porth yma yn uniongyrchol trwy'r ddolen hon http://termau.cymru/. Er mwyn gallu defnyddio'r Ap Geiriaduron ar eich ffôn clyfar neu dabled, ewch i chwilio amdano yn y Play Store (ar gyfer ffôn neu dabled Android) neu'r App store (ar gyfer teclynnau Apple), gan ei lwytho ar eich teclyn. Os ydych yn ansicr gyda'ch treigladau hefyd, mae posib defnyddio Ap Treiglo sydd wedi ei greu gan Ganolfan Peniarth, sy'n egluro'r gwahanol dreigladau. Mae'r ap yma eto ar gael yn yr un lle.

Os ydych yn chwilio am darddiad enwau a diffiniad termau, mae Geiriadur Prifysgol Cymru ar-lein yn ffordd wych o ganfod hynny https://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Dau adnodd sy'n ddefnyddiol tu hwnt wrth sicrhau cywirdeb ysgrifenedig yw gwefan Cysill https://www.cysgliad.com/cysill/arlein/ a rhaglen feddalwedd Cysgliad sydd bellach am ddim i'w lawrlwytho – Mae Cysgliad yn gallu gwirio dogfen hirach na Cysill a gellir ei lawrlwytho trwy'r ddolen ganlynol https://www.cysgliad.com/cy/ . Y gwahaniaeth rhwng y ddau sy'n rhan o'r un gwasanaeth yw bod modd cyfieithu mwy o eiriau ar un tro trwy ddefnyddio rhaglen Cysgliad ar eich prif gyfrifiadur, a hynny heb gyswllt gwe. Heb os, os ydych angen cymorth i'ch cynorthwyo wrth wirio darn ysgrifenedig a gwella cywirdeb, mae'r ddau yn ddefnyddiol mewn amgylchiadau gwahanol a Cysill yn fwy defnyddiol os ydych angen gwirio brawddeg neu ddwy yn sydyn ar eich ffôn clyfar er enghraifft.

Mae yna lawer yn feirniadol o Google Translate a hynny am reswm da – mae ambell i awdurdod lleol a chyrff cyhoeddus yn ei ddefnyddio i gyfieithu bob dim dan haul ac yn gwneud llanast ofnadwy! Ond dwi am roi fy mhen ar y bloc a dweud fod defnyddio Google Translate yn iawn yn ei le. Pam dwi'n deud hyn? Os ydych isio dechrau'r broses o gyfieithu dogfen, mae'n werth gadael i Google Translate ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd yn gyntaf ond gan bwysleisio eich bod wedyn yn ei brawf ddarllen yn ofalus i sicrhau nad oes yna gyfieithiadau gwirion. Fe allwch ddefnyddio Google Translate i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg neu fel arall. Mae Google Translate wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n gweithio fel sylfaen dda cyn prawf ddarllen y darn ysgrifenedig ond cofiwch fel drafft a man cychwyn yn unig! Mae Microsoft Bing yn wasanaeth arall cyfieithu ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda hwy i ddatblygu'r gwasanaeth. Dwi ar ddeall fod gwasanaeth cyfieithu Bing yn fwy cywir na Google, ond ewch ati i gymharu'r ddau! https://translate.google.co.uk/ https://www.bing.com/translator ond eto byddwch yn ofalus!

Os ydych yn ansicr o enw Cymraeg i rywogaeth ym myd natur, mae'n werth i chi weld yn gyntaf os ydio yn yr Ap Geiriaduron. Os nad yw'r enw dan sylw yno, ewch ati i gwglo'r enw. Teipiwch enw aderyn er enghraifft 'Jay gan roi 'Cymraeg' ar ei ôl yn Google, ac mi ddaw'r canlyniadau a'r un cyntaf sy'n ymddangos ar yr rhestr yw dolen gan eiriadur Glosbe, sy'n nodi mai Sgrech y Coed yw'r enw!

Felly cofiwch, mae yna ddigon o adnoddau i'ch cynorthwyo ac i gefnogi pobl sy'n llai hyderus yn eu Cymraeg ysgrifenedig ar y We ond y cyngor gorau yw i brawfddarllen unrhyw ddarn cyn cyhoeddi! Am fwy o wybodaeth am dechnoleg Cymraeg ewch i https://businesswales.gov.wales/heloblod/cy/technoleg-cymraeg

Os ydych chi fel mudiad neu wirfoddolwyr angen cymorth, cyngor neu hyfforddiant am ddim ar dechnoleg yr Iaith Gymraeg, gadewch i ni wybod mae croeso i chi ebostio ni: Cymunedau.Digidol@wales.coop.


City & Guilds · citb · safe

CONTRACTWYR
Pris Teg. Fair Price.
CONTRACTORS

**Adnewyddu (tu fewn a thu allan i'r tŷ) ● Plymio a gwresogi (olew a nwy) ● Garddio a thirlunio ● Picedwr ceirios a gweithredwr i'w llogi (estyn I 9 medr)**

*Un galwad i ddatrys y cwbl. Gwaith o ansawdd am bris teg.*

Cysylltwch â Jac ar – 07933603131

neu trwy e-bost – jacbonner@gmail.com

Prisiau yn cychwyn o £20 yr awr. Amcangyfrifon am ddim trwy e-bost a whatsapp



RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888




SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

01970 617120

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan


www.siopypethe.cymru

## Adolygiad

Brian Davies ***Land of Lead: The Story of Four Generations of a North Ceredigion Family***
Y Lolfa 144t. £9.99

Tasg bleserus i mi yw cael tynnu sylw fel hyn at lyfr newydd – llyfr Saesneg-sy'n ymwneud mewn modd diddorol iawn ag ardal lle treuliais flynyddoedd hapus fy mhlentyndod a'm ieuenctid, a'r ardal a fu'n gynefin i deulu fy mam am sawl cenhedlaeth. Ardal a fu gynt yn ganolfan bwysig i'r diwydiant mwyn plwm, ac enwau cyfarwydd yn gysylltiedig â hi, megis Lewis Morris, yr enwocaf o'r brodyr Morris o Fôn a briododd ferch leol, llawer iawn iau nag ef ei hun – Anne Lloyd, Penbryn, a chodi teulu lluosog ar aelwyd Allt Fadog lle'r ymgartrefodd y ddau. Camp Brian Davies yn y gyfrol hon yw dilyn hanes pedair cenhedlaeth o'i deulu ef a fwriodd eu hynt yng ngogledd Ceredigion. Dywed ei fod yn ffodus bod cyfoeth o ddeunydd – ysgrifenedig a darluniedig – wedi goroesi o ochr ei fam (yr elfen forwrol), ac ochr ei dad a ddisgynnai o deulu o fwynwyr plwm. Mawr yw ein dyled i'r teuluoedd hyn am eu gweledigaeth a'u gofal.




Nid oes ofod yma i drafod cynnwys y gyfrol hon yn fanwl, ond i dynnu sylw yn unig at ambell bwynt neu hanesyn yma ac acw. Dyma ddarlun o Sabath yn Aberystwyth, a hynny yn y Tabernacl yn Heol Powell a helaethwyd erbyn 1878 i gynnwys 1500 o addolwyr. Yr oedd y seremoni agor swyddogol yn ddigwyddiad o bwys yn y dref, a pharhaodd y dathliadau o ddydd Mawrth hyd y Sul canlynol. Yn ystod y cyfnod hwnnw traddodwyd pedair ar bymtheg o bregethau (ac nid rhai byrion) gan un pregethwr ar ddeg. Caewyd drysau'r Tabernacl, meddir, yn 2002 ond chwech blynedd yn ddiweddarach fe'i dinistrwyd gan dân, a thynnwyd ei weddillion i lawr, ar ôl gwasanaethu'r gymuned am 125 o flynyddoedd. Arbennig o werthfawr yw'r dyfyniad hir rhwng tt.96 – 101 lle ceir portread gan y diweddar Elfed o fro ei fedydd.

Coron ar y gyfrol diddorol hon yw'r casgliad o luniau a baentiwyd gan Gapten William James (1842 -1917), hen, hen daid yr awdur. Nid yn unig maent yn bleser i'r llygad, ond y maent hefyd yn ddogfennau hanesyddol gwerthfawr.

Y mae gwledd yn aros pwy bynnag o ddarllenwyr y Tincer a wel yn dda i brynu a darllen y gyfrol arbennig hon.

**Tegwyn Jones**

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
Gwasanaeth Gymraeg
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

Trefnwyr Angladdau
C T Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
01970 820013
gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau,
Llandre,
Aberystwyth
SY24 5BS

# Ysgol **Rhydypennau**

**Cyfyngiadau yn parhau**

Parhau mae ein cyfyngiadau Covid yma yn yr ysgol. Does dim modd trefnu ymweliad addysgol i'r plant, croesawu ymwelwyr i'r dosbarthiadau heb sôn am drefnu trip ysgol! Ta waeth, mae bwrlwm yr ysgol yn parhau, ac yr ydym yn ceisio'n gorau glas i sicrau profiadau dysgu gwerthfawr i'n disgyblion i gyd.





**'O'r Fferm i'r Fforc'**

Ac, mewn gwirionedd, dyma'r her oedd yn wynebu plant blwyddyn 3 a 4; ceisio dysgu am agweddau o'u thema-'O'r fferm i'r fforc' ond yn methu gadael y dosbarth er mwyn ymweld â fferm!

Ond, diolch i Sara Jenkins, Fferm Cerrigcaranau ger Dôl-y-bont a gwyrth technoleg, cafodd plant blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod i'r brenin yn cael eu tywys yn rithiol o gwmpas fferm y teulu Jenkins gan ddysgu llwyth o wybodaeth am sut mae fferm leol yn gweithredu ac yn cael ei chynnal.

Yn ychwanegol i hyn ac efallai eich bod wedi dod ar draws 'Llaeth Teulu Jenkins' sef menter newydd y teulu; cafodd y plant gyfle i flasu cynnyrch y fferm sef llaeth ac ysgytlaeth hynod o flasus.

Hoffa'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i deulu fferm Cerrigcaranau am roi o'u hamser. A diolch arbennig i Sara am y gwaith camera arbennig ac am yr amynedd i ateb yr holl gwestiynau a holwyd gan gynulleidfa frwd ond gwerthfawrogol iawn.

**Cwis**

Mi fydd 'Cwis Dim Clem' yn cael ei gynnal ar ddiwedd y mis hwn. Cystadleuaeth i blant blwyddyn 6 ysgolion Ceredigion yw'r cwis o dan drefniant Swyddog datblygu CERED, Rhodri Francis.

Gan mai dim ond 4 aelod sydd ymhob tîm bu'n rhaid cynnal cwis mewnol ymysg blwyddyn 6 o flaen llaw er mwyn dewis y pedwar aelod a oedd â'r wybodaeth cyffredinol fwyaf eang. Llongyfarchiadau i Enid Evans, Huw Jones, Megan Hughes a Sion Davies am lwyddo i ennill lle ar y tîm i gynrychioli'r ysgol. Pob lwc i'r pedwar.

**Dau yn dangos eu doniau**

Llongyfarchiadau mawr i Iestyn Roberts a Katie Whiteway; mae'r ddau ddisgybl o flwyddyn 6 wedi dangos dawn neilltuol mewn dau gamp wahanol i'w gilydd. Tra bod Iestyn wedi ei ddewis i gynrychioli rhanbarth criced dan 11 oed Gogledd Cymru, bu Katie yn y Drenewydd yn ddiweddar yn chwarae mewn gêm i ddewis carfan pêl-droed merched dan 14 Cymru. Campus! Pob llwyddiant i'r ddau ohonynt.

**Siarter Iaith**

'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'-Rydym yn parhau i osod seiliau cadarn yn yr ysgol er mwyn bwrw'r targed cenedlaethol hyn. Mae'r plant yn ymateb yn dda i'r her ac yn ymdrechu'n gyson i ddefnyddio'r iaith ar bob achlysur o gwmpas yr ysgol. Er mwyn dathlu ymdrechion y plant, rydym yn cynnal gwasanaeth arbennig ddiwedd pob wythnos i wobrwyo yr unigolion gorau o bob dosbarth.







JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT
GRIFFITHS
Am bob math o waith
garddio ffoniwch
(01970) 820924

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: **http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk** @YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**Gwasanaeth Tân**

Mae gan yr ysgol gysylltiad cryf iawn gyda'r Gwasanaeth Tân ac yn ystod y mis cafodd plant y Cyfnod Sylfaen ymweliad arbennig gan Bethan. Yn y gorffennol rydym wedi gallu croesawu'r Frigâd Dân i'r ysgol ac wedi mwynhau gweld yr injan dân ar yr iard. Ond yn anffodus, ymweliad rhithiol oedd hyn y tro yma. Diolch yn fawr i Bethan am gadw cysylltiad efo'r ysgol ac am y cynghorion doeth. Rydym yn croesi bysedd y gallwn ei chroesawu i'r ysgol ar gyfer yr ymweliad nesaf!

**Y Cyfnod Sylfaen**

Mae wedi bod yn brysur iawn yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen ers dechrau nol ar ôl y Pasg. Mae'r plant wedi bod wrth eu boddau'n dilyn thema morladron. Mae'r cwch sydd yn yr ardal allanol wedi cael ei adnewyddu ac mae'n hyfryd gweld y plant yn cymryd eu chwarae rôl o ddifri, gan gynnwys gorfodi'r staff i gerdded y planc! Mae hefyd wedi yn hyfryd yn clywed y plant yn canu addasiad o Mi Welais Jac y Do ond ymddiheuriadau i'r cymdogion!

Mi welais Capten Jac,  
Yn edrych ar ei fap,  
Het ddu ar ei ben  
Ac un goes bren,  
Ho! Ho! Ho! Ho! Ho! Ho!

Mae'r dosbarth hefyd wedi bod yn darllen stori Mali a'r Morfil gan Malachy Doyle ac Andrew Whitson. Mae'r stori'n rhan o becyn gafodd yr ysgol gan Cyngor Llyfrau Cymru i hyrwyddo'r













syniad o empathi ymysg ein disgyblion. Mae'n stori hyfryd sy'n pwysleisio pwysigrwydd cydweithio a'r ymdrech gymunedol i achub morfil. Mae'r plant wedi bod yn mwynhau actio rhannau o'r stori, dysgu ffeithiau am forfilod a chreu animeiddiadau hyfryd ar yr i-Pad.

**Cyfnod Allweddol 2**

Mae dosbarth Cyfnod Allweddol 2 wedi bod wrthi'n brysur yn ail gydio yn egwyddorion y Siarter iaith dros y mis diwethaf. Yn dilyn cyfnod hir o fod adre, roedd pawb yn teimlo ei bod hi'n bwysig ail afael yn y gweithgareddau i hyrwyddo siarad Cymraeg yn yr ysgol. Mae'r plant wedi bod yn creu posteri, bathodynnau, 'mobiles' a thocynnau iaith er mwyn codi proffil y Siarter yn yr ysgol. Maent hefyd wedi bod yn creu animeiddiadau bywiog ar yr i-Pads a dilyn hyfforddiant bît-bocsio gwych gan Ed Holden (Mr Phormula) dros y we.

Mae rhai o blant hŷn yr ysgol wedi dechrau prosiect arbennig gyda disgyblion Ysgol Tal-y-bont yn ddiweddar. Pwrpas 'Pont yr Wylfa' yw sicrhau cyfnod gwerthfawr o drafod eu teimladau ynghanol cyfnod sydd wedi bod yn anodd i'r plant. Maent wedi bod yn agored iawn wrth rannu syniadau am y pethau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a sut maent wedi ymdopi gyda'r holl newidiadau. Gobeithio y bydd y prosiect yn gallu parhau i ddatblygu yn yr wythnosau nesaf.

**inc**

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

**01970 626 200**

CIGYDD BOW STREET 01970 828447 BOW STREET BUTCHERS SHOP Deli

Cigydd a delicatessen o safon arbennig

01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

# Ysgol Pen-llwyn

Mae'r tywydd wedi bod yn ffafriol ac rydym wedi manteisio ar y tywydd braf a mwynhau nifer o weithgareddau addysgiadol tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae Cyfnod Allweddol 2 wedi bod yn dysgu am 'Bencampwyr' a'r Cyfnod Sylfaen wedi bod yn ffocysu ar y thema 'Y goedwig'. Themâu sydd yn galluogi'r plant i fwynhau profiadau dysgu tu allan i'r dosbarth yn ogystal â thu fewn.

**Taith Hela Arth**
Mi fuodd plant y Cyfnod Sylfaen yn brysur yn dilyn cliwiau ar hyd yr ysgol. Gweithgaredd llawn hwyl yn ffocysu ar eu sgiliau darllen a rhesymu wrth fwynhau yn yr haul wrth gwrs!

**Stori Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll**
Gweithgareddau dail yr ardal allanol. Mae'r plant yn mwynhau'r profiad o dysgu thematig a nifer o weithgareddau gwaith grŵp yn digwydd.

**Wal ddringo newydd yn yr Ysgol**
Diolch yn fawr i PTA yr Ysgol am eu gwaith caled yn paratoi a chynnal gweithgareddau llwyddiannus dros ben dros y cyfnod clo. O ganlyniad i'r gwaith caled yma, archebwyd wal ddringo i'r plant gael mwynhau. Grêt oedd gweld y plant yn dringo ar y wal ac yn datblygu sgiliau corfforol newydd.

**Mainc newydd ar yr iard**
Diolch i Gyngor Cymuned Melindwr am eu caredigrwydd yn rhoi mainc newydd i ni fel Ysgol. Gwelwyd y fainc ar yr iard ac mae'r plant wrth eu boddau yn cael saib o'i hamseroedd chwarae prysur i eistedd a chael clonc ar y fainc yn yr haul. Fel ysgol rydym yn gwerthfawrogi caredigrwydd a chefnogaeth y gymuned leol.









## GYDA'N GILYDD

**PC Hannah yn ymweld gyda'r Cyfnod Sylfaen**
Profiad gwerthfawr unwaith eto oedd croesawu PC Hannah i siarad gyda'r plant am y 'gwasanaeth brys' a helpu'r plant i ddeall bod galw 999 yn cael gafael ar sawl gwasanaeth – Yr heddlu, ambiwlans, brigâd dan, gwylwyr y glannau a gofalwyr y mynyddoedd.

**Wythnos 'Big Pedal' – Teithio'n iach i'r Ysgol**
Diolch yn fawr i'r criw teithio'n iach, criw Sustrans a staff o'r ddwy Ysgol am eu gwaith caled yn paratoi gweithgareddau cyfoethog i blant yr ysgolion. Roedd e'n grêt gweld cymaint o blant yn teithio'n egnïol i'r ysgol ac yn cyrraedd gyda bochau coch a gwenau mawr ar eu hwynebau. Bu plant a rhieni yn cerdded, beicio a sgwteri i'r ysgol er mwyn cefnogi a dathlu'r digwyddiad Big Pedal. Dangoswyd lluniau'r plant yn cymryd rhan yn y gweithgareddau yn fyw ar y rhaglen deledu CYW 'HELO SHWMAE'. Braf oedd gweld bod gwaith caled y staff a phlant y ddwy ysgol yn cael ei adnabod a'i ganmol ar y rhaglen. Dyma enghraifft arall o gryfder y bartneriaeth rhwng ysgol Penrhyn-coch a Phen-llwyn, gyda'r staff yn cyd-weithio i rannu adnoddau a phrofiadau dysgu ar draws y ddwy ysgol, yn cynnig sesiynau byw.

**Croesawu'r beiciwr Gruff Lewis – cyfarfod byw ar lein**
Braf oedd croesawu'r beiciwr proffesiynol Gruff

# Ysgol Penrhyn-coch

**Helyntion Dosbarth Dau**
Mis prysur arall yn y dosbarth. Thema mis Ebrill oedd ‘Y Goedwig’ fe wnaeth plant fwynhau cwblhau heriau gwahanol yn seiliedig ar y llyfrau ‘Rydyn yn mynd i hela arth’ a llyfr gwych o’r enw *‘Criw’r Coed a’ r Gwenyn Coll’*. Ar diwedd y thema llwyddodd y plant i ddysgu rap a’i berfformio gan ddefnyddio offerynnau gwahanol. Braf oedd ei gweld yn joio rapio! Gellir gweld perfformiad y rap ar gyfrif trydar yr Ysgol.

**Dosbarth Derbyn**
Braf oedd cael mynd a’r plant Dosbarth Derbyn i Goedwig Gogerddan fel diweddglo i’r sbardun stori ‘Rydyn ni’n mynd i hela arth’. Cerddodd pawb yno ar hyd y palmant newydd ac yna y peth gorau o’r diwrnod (yn ôl y plant!) oedd cael picnic! Doedd neb wedi gwlychu wrth i ni adeiladu argaeau yn Nant Clarach ac yna ymlaen i addurno coronau y Goedwig wrth enwi’r planhigion a dail y coed. Hyfryd gweld blanced las o glychau’r gog ar lawr y goedwig. Ni welsom yr un arth yn y goedwig, tan y tro nesaf gobeithio!





**CA2 Pencampwyr**
Spardun i gychwyn ein thema oedd ymweliad Gruff Lewis y beiciwr dros zoom ac ar ôl yr ymweliad penderfynodd y disgyblion gynllunio taith ‘Tour de Cymru’-maent wedi ysgrifennu llythyr personol i Gruff, darn o ddyddiadur Gruff ar ôl iddo ennilll pencampwriaeth Cymru, dylunio y daith ar fap enfawr o Gymru gan roi pwyslais penodol ar gymalau y gystadleuaeth!

Mae’r disgyblion wedi dod i adnabod nodweddion tirwedd Cymru yn well trwy gynllunio’r daith. Cawsom hwyl yn cynllunio crys arbennig i enillydd y ras ac fe grëwyd nwyddau penigamp i’w gwerthu yn ystod y ras!

**Her blodau haul**
Mae Mrs Roberts – sydd gyda ni am ddiwrnod bob wythnos – wrthi yn cymryd rhan ym mhrosiect her tyfu blodau haul gan gwmni ‘Cynnal’ – mae pob disgybl wedi plannu’r hadau ac maent yn gofalu amdanynt yn dda. Yn ogystal a hynny maent wrthi yn creu siart mesur i roi yn y llecyn allanol ac mae ffocws ar waith yr arlunydd Van Gough. Mae’n braf cael croesawu Mr Steffan Davies i fod yn bennaeth ar ein cyfer yn y ddwy ysgol tra fydd Mrs Catryn Lawrence i ffwrdd ar gyfnod Mamolaeth. Rydyn yn ddymuno yn dda i chi’ch dau.

**Crefftwyr campus**
Mae Elis a Jac y Garej wedi dylunio a chreu llecyn eistedd hyfryd i ddisgyblion Bl 5 a 6 tu allan i’r dosbarth – gyda arweiniad medrus Dad mae’r llecyn wedi ei greu yn ardderchog! Diolch bois y garej!

**Cerddor**
Braf gweld Osian Tudur yn cymryd rhan yng nghyngerdd rhithiol gwasanaeth cerdd Ceredigion-West end of Wales! Dai iawn ti.

Lewis i drafod ei yrfa gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Cawsom glywed am ei hanes ac am y gwaith caled sydd angen i fod yn feiciwr proffesiynol. Roedd y plant wrth eu boddau yn clywed bod Gruff yn gyn-ddisgybl ym Mhenrhyn-coch ac rydym yn ddiolchgar dros ben am ei amser a’i fodlonrwydd i ateb cwestiynau a thrafod ei yrfa gyda ein plant. Mae’n wych bod pobl o’r ardal yn datblygu i fod yn llwyddiannus yn y byd chwaraeon. Mae Gruff yn rôl fodel dda i blant a phobl o fewn ei yrfa.



Gweler eu her hanner tymor ar t.9

**Dod i adnabod Mr Davies**
Fy enw yw Steffan Davies, yn wreiddiol o Dre-fach Felindre. Fe symudais i Aberystwyth i ddechrau yn fy ngyrfa dysgu yn Ysgol Plas-crug. Dwi wrth fy modd i gael y cyfle i ddod yma i Ysgol Penrhyn-coch a Pen-llwyn ar secondiad ac yn mwynhau dod i adnabod y plant, staff a chymuned y ddau safle. Dwi wrth fy modd yn arwain bywyd llesol a phêl droed yw fy pasiwn mawr mewn bywyd. Dwi’n gyfarwydd iawn â chymuned Penrhyn-coch oherwydd dwi wedi bod yn aelod ffyddlon o dîm cyntaf y clwb ond ar hyn o bryd yn chwarae i Glwb Pêl-droed Aberystwyth. Mae gennyf fi a’m gwraig Sian (merch o’r ardal hon yn wreiddiol) dri o fechgyn, – Jona Wyn, Defi Henri a Iori Jon Price-Davies.



# Tasg y Tincer

Diolch i'r criw bach fu'n brysur yn lliwio llun Mr Urdd y mis diwethaf: Jack Herron, Bow Street; Carian, Iestyn a Tirion, y Borth; Heledd Rees, Aberystwyth. Dy enw di, Heledd, ddaeth o het bobyl yr Urdd y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr. Daliwch ati i liwio a chystadlu, bawb!



Ry'n ni newydd ddathlu digwyddiad pwysig iawn ar 17 Mai – **Diwrnod Rhyngwladol Twm Siôn Cati**. Ydech chi wedi clywed amdano? Roedd yn byw dros 400 mlynedd yn ôl yn ardal Tregaron, a byddai'n aml yn crwydro'r ardal rhwng Tregaron ac Aberystwyth – ac ymhellach. Mae ei hanes yn llawn antur a chyffro! Ei enw iawn oedd Thomas Jones, ac roedd yn lleidr pen-ffordd, yn dwyn oddi ar y bobl gyfoethog wrth iddyn nhw fynd ar eu taith, ac yn rhoi'r arian i'r bobl dlawd. Roedd Twm yn gyfrwys. Byddai'n ffoi rhag y bobl oedd am ei ddal, gan guddio mewn ogof yn y mynyddoedd – ac mae 'Ogof Twm Siôn Cati' yno hyd heddiw, yn ardal Rhandir-mwyn, Sir Gaerfyrddin! Ry'n ni'n cofio amdano ar 17 Mai am fod y dyddiad yn ei ewyllys yn 1609, ac mae hwnnw'n cael ei gadw'n saff yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae T. Llew Jones wedi sgwennu tair nofel gyffrous am hanes Twm Siôn Cati: *Y Ffordd Beryglus*, *Dial o'r Diwedd* ac *Ymysg Lladron*. Maen nhw'n werth eu darllen!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y mis hwn, rhowch gynnig ar liwio llun Twm Siôn Cati. Mae'n edrych yn barod am antur gyda'i gleddyf miniog! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Mehefin 1af. Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

*Rhif 439 | Mai 2021*